
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

# Craffu ar y rheoliadau a wnaed o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018: materion gweithredol

Gorffennaf 2018



www.cynulliad.cymru

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru/SeneddMCD**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddMCD@cynulliad.cymru**
Twitter: **@SeneddMCD**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2018**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

# Craffu ar y rheoliadau a wnaed o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018: materion gweithredol

Gorffennaf 2018

www.cynulliad.cymru

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor hwn ar 15 Mehefin 2016 i cyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn Rheol Sefydlog 21, ac ystyried unrhyw fater cyfansoddiadol, deddfwriaethol neu lywodraethol arall sydd o fewn cymhwysedd y Cynulliad neu Weinidogion Cymru, neu sy'n gysylltiedig â chymhwysedd y Cynulliad neu Weinidogion Cymru, gan gynnwys ansawdd deddfwriaeth.

## Cadeirydd y Pwyllgor:



**Mick Antoniw AC**
Llafur Cymru
Pontypridd

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Mandy Jones AC**
UKIP Cymru
Gogledd Cymru



**Dai Lloyd AC**
Plaid Cymru
Gorllewin De Cymru



**David Melding AC**
Ceidwadwyr Cymreig
Canol De Cymru

# Cynnwys

**Argymhellion** .......... **5**

**1. Cyflwyniad** .......... **8**

Cylch gwaith y Pwyllgor .......... 8

Ein dull o weithredu .......... 8

**2. Cefndir i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018** .......... **10**

Taith drwy Senedd y DU .......... 10

Cydsyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru .......... 10

Y pwerau yn Neddf 2018 i wneud rheoliadau .......... 11

**3. Sifftio rheoliadau negyddol arfaethedig** .......... **15**

Y broses sifftio yn Neddf 2018 .......... 15

Cefndir a thystiolaeth .......... 15

Ein barn .......... 16

Y Pwyllgor sifftio .......... 17

Cefndir a thystiolaeth .......... 17

Ein barn .......... 18

Maint y Pwyllgor .......... 18

Cefndir a thystiolaeth .......... 18

Ein barn .......... 19

Meini prawf sifftio .......... 20

Cefndir a thystiolaeth .......... 20

Ein barn .......... 21

Argymhellion y pwyllgor sifftio yn rhai sy'n rhwymo .......... 22

Cefndir a thystiolaeth .......... 22

Ein barn .......... 24

14 diwrnod calendr ar gyfer sifftio .......... 26

Cefndir a thystiolaeth .......... 26

Ein barn .......... 27

Nifer y rheoliadau a'r goblygiadau o ran craffu ........ 28

Cefndir a thystiolaeth: nifer y rheoliadau a phryd y'u disgwylir gyntaf ... 28

Ein barn ........ 32

Cefndir a thystiolaeth: rhybudd cynnar, hysbysiad cyffredinol, a llif cyson 33

Ein barn ........ 34

Effaith ar fusnes y Cyfarfod Llawn ........ 36

Cefndir a thystiolaeth ........ 36

Ein barn ........ 36

Adrodd am ganlyniad y gwaith sifftio ........ 37

Ein barn ........ 37

**4. Craffu ar reoliadau a wneir gan Weinidogion y DU mewn meysydd datganoledig ........ 38**

Cefndir a thystiolaeth ........ 38

Ein barn ........ 40

***5.* Craffu ar reoliadau a wneir o dan adrannau 109A ac 80(8) o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* ........ 42**

Cefndir a thystiolaeth ........ 42

Ein barn ........ 46

**6. Cyhoeddusrwydd ac ymgysylltu ........ 49**

# Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Rydym yn argymell y dylid diwygio Rheolau Sefydlog y Cynulliad Cenedlaethol i ddarparu bod y swyddogaeth o wneud argymhelliad ynghylch y weithdrefn briodol i'w defnyddio ar gyfer rheoliadau sy'n ddarostyngedig i'r broses sifftio o dan Ddeddf 2018 yn cael ei haseinio i bwyllgor. .......................................... Tudalen 18

**Argymhelliad 2.** Rydym yn argymell y dylai Rheolau Sefydlog y Cynulliad Cenedlaethol ei gwneud yn ofynnol i ni, sef y pwyllgor sydd â'r swyddogaeth o sifftio rheoliadau o dan Ddeddf 2018, gyhoeddi'r meini prawf y byddwn yn eu cymhwyso i reoliadau sy'n ddarostyngedig i'r broses sifftio. ..................................Tudalen 21

**Argymhelliad 3.** Os yw'r Cynulliad Cenedlaethol yn fodlon na fydd ein hargymhellion ni fel y pwyllgor sifftio yn rhwymol, rydym yn argymell y dylid diwygio'r Rheolau Sefydlog i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru esbonio pam nad ydynt yn cytuno â'n hargymhellion (fel sy'n gymwys i Weinidogion y DU ym mharagraff 3(7) o Atodlen 7 i Ddeddf 2018)............................................................ Tudalen 25

**Argymhelliad 4.** Rydym yn argymell y dylai Arweinydd y Tŷ ysgrifennu atom cyn diwedd mis Gorffennaf 2018, gan roi diweddariad i ni o ran nifer y rheoliadau y bydd eu hangen i gywiro diffygion yng nghyfraith yr UE a ddargedwir o ganlyniad i'r DU yn ymadael â'r UE, yn ogystal â diweddariad ar nifer y rheoliadau eraill y bydd angen eu gwneud o dan Ddeddf 2018. ...................................................................... Tudalen 32

**Argymhelliad 5.** Rydym yn argymell, wrth benderfynu ar amserlenni pwyllgorau yn y dyfodol, yr ystyrir yr angen posibl i'r Pwyllgor hwn, yn ein rôl fel y pwyllgor sifftio, gyfarfod am fwy o amser a/neu gyfarfod ar ddiwrnod gwahanol a/neu gyfarfod yn amlach nag unwaith yr wythnos er mwyn craffu ar y rheoliadau a wneir o dan Ddeddf 2018.................................................................................................. Tudalen 32

**Argymhelliad 6.** Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i gytundeb gyda ni fel y pwyllgor sifftio i gynnwys:

- system rhybudd buan i helpu i reoli'r gwaith craffu ar yr holl is-ddeddfwriaeth hyd ddiwedd y Cynulliad hwn (yn 2021);
- y diwrnod gorau ar gyfer gosod y rheoliadau negyddol arfaethedig o dan Ddeddf 2018; ac
- unrhyw fater arall a fydd yn helpu gyda'r gwaith o graffu ar reoliadau a wneir o dan Ddeddf 2018 mewn modd effeithiol ac effeithlon, yn arbennig rheoliadau i gywiro diffygion yng nghyfraith yr UE a ddargedwir. Tudalen 36

**Argymhelliad 7.** Rydym yn argymell bod Rheolau Sefydlog y Cynulliad Cenedlaethol yn ei gwneud yn ofynnol, lle y bo Gweinidogion y DU yn gweithio ar eu pen eu hunain mewn meysydd datganoledig yn gosod gerbron Senedd y DU reoliadau mewn meysydd sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru, a lle ei bod yn ofynnol i Weinidogion Cymru gydsynio i wneud y rheoliadau hynny:

- bod Gweinidogion Cymru yn hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol o fewn un diwrnod gwaith i osod y rheoliadau; a
- bod memorandwm esboniadol yn cyd-fynd â hysbysiad o'r fath yn crynhoi diben ac effaith y rheoliadau ac yn esbonio pam mae Gweinidogion Cymru wedi rhoi eu cydsyniad. ........ Tudalen 41

**Argymhelliad 8.** Rydym yn argymell bod Rheolau Sefydlog y Cynulliad Cenedlaethol yn ei gwneud yn ofynnol, lle y bo Gweinidogion y DU yn gweithio ar eu pen eu hunain yn gosod gerbron Senedd y DU reoliadau mewn meysydd sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru, a lle nad yw’n ofynnol i Weinidogion Cymru gydsynio i wneud y rheoliadau hynny:

- bod Gweinidogion Cymru yn hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol o fewn un diwrnod gwaith i osod y rheoliadau; a
- bod memorandwm esboniadol yn cyd-fynd â hysbysiad o'r fath yn crynhoi diben ac effaith y rheoliadau........ Tudalen 41

**Argymhelliad 9.** Rydym yn argymell y dylid diwygio Rheolau Sefydlog y Cynulliad Cenedlaethol i ddarparu gweithdrefn mewn perthynas â'r darpariaethau yn adran 109A o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*, yn arbennig:

- i wneud memorandwm esboniadol yn ofynnol sydd:
  - yn crynhoi effaith rheoliadau y mae Gweinidogion y DU yn bwriadu eu gosod o dan adran 109A (3) o Ddeddf 2006;
  - yn gwneud argymhellion o ran a ddylid gwneud y rheoliadau drafft perthnasol yn ddiweddarach gan Weinidogion y DU;
  - yn esbonio'r rhesymau dros wneud yr argymhelliad;
- i'w gwneud yn ofynnol i'r Pwyllgor Busnes gyfeirio'r memorandwm esboniadol hwnnw at bwyllgor neu bwyllgorau;

- i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol unrhyw ddatganiad ysgrifenedig a roddwyd i Weinidogion y DU (h.y. y datganiad a grybwyllwyd yn adran 157ZA(2)(b)(ii) newydd o Ddeddf 2006), heb fod yn hwyrach nag un diwrnod gwaith ar ôl i Weinidogion Cymru roi'r datganiad. ....................Tudalen 47

**Argymhelliad 10.** Rydym yn argymell bod manylder argymhelliad 10 yr un mor gymwys o ran y darpariaethau yn adran 80 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*. ....................Tudalen 47

**Argymhelliad 11.** Rydym yn argymell ei bod yn ofynnol i Weinidogion Cymru, yn ôl Rheolau Sefydlog y Cynulliad Cenedlaethol, osod unrhyw adroddiad a ddarperir iddynt yn unol â pharagraff 4(4) o Ran 2 o Atodlen 3 i Ddeddf 2018, a hynny o fewn un diwrnod gwaith iddo ddod i law....................Tudalen 47

**Argymhelliad 12.** Pan fydd Llywodraeth y DU yn diddymu neu'n dirymu cyfyngiadau cyfraith yr UE a ddargedwir (o ran cymhwysedd deddfwriaethol a chymhwysedd gweithredol), rydym yn argymell ei bod yn ofynnol i Weinidogion Cymru, yn ôl Rheolau Sefydlog y Cynulliad Cenedlaethol, wneud datganiad ysgrifenedig: ....................Tudalen 48

- bod cyfyngiadau cyfraith yr UE wedi'u codi, heb fod yn hwyrach na 7 diwrnod calendr ar ôl i'r rheoliadau perthnasol gael eu gosod;
- sy'n esbonio effaith dileu'r cyfyngiadau ar gymhwysedd y Cynulliad Cenedlaethol neu Weinidogion Cymru. ....................Tudalen 48

# 1. Cyflwyniad

## Cylch gwaith y Pwyllgor

**1.** Cylch gwaith y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol (y Pwyllgor) yw cyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn Rheol Sefydlog 21[1] (ac eithrio Rheol Sefydlog 21.8[2]), ac ystyried unrhyw fater cyfansoddiadol, deddfwriaethol neu lywodraethol arall sydd o fewn cymhwysedd y Cynulliad Cenedlaethol neu Weinidogion Cymru, neu sy'n gysylltiedig â chymhwysedd y Cynulliad neu Weinidogion Cymru, gan gynnwys ansawdd deddfwriaeth.

**2.** Yn ein gwaith craffu ar Filiau a gyflwynir yn y Cynulliad Cenedlaethol ein dull yw ystyried:

- materion sy'n ymwneud â chymhwysedd y Cynulliad Cenedlaethol, gan gynnwys bod yn gydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (ECHR);
- y cydbwysedd rhwng y wybodaeth sydd wedi ei chynnwys ar wyneb y Bil a'r hyn sydd mewn is-ddeddfwriaeth;
- a yw gweithdrefn ddeddfwriaethol briodol wedi cael ei dewis, mewn perthynas â rhoi pwerau i Weinidogion Cymru, i wneud is-ddeddfwriaeth; ac
- unrhyw fater arall sy'n berthnasol i ansawdd deddfwriaeth yn ein barn ni.

## Ein dull o weithredu

**3.** Ym mis Chwefror 2018, cyhoeddwyd ein hadroddiad *Craffu ar reoliadau a wnaed o dan Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)*[3] (ein hadroddiad cyntaf). Canolbwyntiodd yn bennaf ar y newidiadau y dylid eu gwneud, yn ein barn ni, i Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)[4] (y Bil) yn ystod ei daith, ar y pryd, drwy Dŷ'r Arglwyddi. Nodwyd yn ein hadroddiad cyntaf hefyd:

---

[1] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru*, Mawrth 2018

[2] Cyfrifoldeb y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol yw'r swyddogaethau a nodir o dan Reol Sefydlog 21.8

[3] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Craffu ar reoliadau a wnaed o dan Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)*, Chwefror 2018

[4] *Bil yr Undeb Ewrpoeaidd (Ymadael), Bil Tŷ'r Arglwyddi 79* (Saesneg yn unig)

> "Efallai y byddwn hefyd yn cyflwyno adroddiad yn ddiweddarach ar faterion mwy gweithredol sy'n ymwneud â chraffu ar yr is-ddeddfwriaeth a wneir o dan y Bil. Mae'r Bil terfynol a gaiff ei gymeradwyo gan Senedd y DU hefyd yn debygol o ddylanwadu ar y materion hyn."[5]

**4.** Mae'r adroddiad hwn yn mynd i'r afael â'r materion gweithredol hynny.

**5.** Gofynnwyd am farn sefydliadau ac unigolion ag arbenigedd yn y maes hwn a daeth ymateb gan yr Athro Thomas Glyn Watkin i law.[6] Cawsom dystiolaeth gan Julie James AC, Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip (Arweinydd y Tŷ) ar 11 Mehefin 2018 i lywio'r gwaith o baratoi'r adroddiad hwn. Mae hefyd yn cynnwys tystiolaeth a roddwyd i ni yn fwy cyffredinol ar y Bil gan Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid (Ysgrifennydd y Cabinet) ar 30 Ebrill 2018.

**6.** Cyhoeddodd Pwyllgor Gweithdrefnau Tŷ'r Cyffredin ei adroddiad ar ei waith craffu ar ddeddfwriaeth ddirprwyedig o dan *Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018*, ar 9 Gorffennaf 2018.[7]

---

[5] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Craffu ar reoliadau a wnaed o dan Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)*, Chwefror 2018, paragraff 8

[6] Tystiolaeth gan yr Athro Thomas Glyn Watkin, 21 Mai 2018 (Saesneg yn unig)

[7] Pwyllgor Gweithdrefnau Tŷ'r Cyffredin, *Scrutiny of delegated legislation under the European Union (Withdrawal) Act 2018*, chweched adroddiad sesiwn 2017-2019, Tŷ'r Cyffredin 1395, 9 Gorffennaf 2018

# 2. Cefndir i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018

## Taith drwy Senedd y DU[8]

**7.** Ar 13 Gorffennaf 2017, cafodd y Bil[9] ei ddarlleniad cyntaf yn Nhŷ'r Cyffredin. Roedd y Bil yn nodi sut y bydd y corff o gyfraith gyfredol yr Undeb Ewropeaidd (UE) yn cael ei drosi'n gyfraith y DU (ac yn dod yn gyfraith yr UE a ddargedwir) pan fydd y DU yn ymadael â'r UE. Cwblhaodd y Bil ei daith trwy Dŷ'r Cyffredin ar 17 Ionawr 2018 a Thŷ'r Arglwyddi ar 16 Mai 2018. Yn dilyn ping pong,[10] cytunodd y ddau Dŷ ar destun y Bil ar 20 Mehefin 2016 a chafodd y Cydsyniad Brenhinol ar 26 Mehefin 2018, gan ddod yn Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (Deddf 2018).

## Cydsyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**8.** Ar 24 Ebrill 2018, ysgrifennodd Ysgrifennydd y Cabinet at y Gwir Anrhydeddus David Lidington CBE AS, Canghellor Dugiaeth Lancaster a Gweinidog Swyddfa'r Cabinet, yn cadarnhau y byddai Llywodraeth Cymru yn cefnogi LCM sy'n gysylltiedig â'r Bil.[11] Roedd cefnogaeth Llywodraeth Cymru yn dilyn gwelliannau arfaethedig Llywodraeth y DU i gymal 11 o'r Bil (sef adran 12 o Ddeddf 2018 erbyn hyn), ynghyd â'r ymrwymiadau a'r sicrwydd a nodwyd mewn Cytundeb Rhynglywodraethol.[12]

**9.** Ar 25 Ebrill 2018, gwnaeth Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad llafar yn y Cyfarfod Llawn a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynulliad Cenedlaethol am ddatblygiadau mewn perthynas â'r Bil. Roedd y datganiad yn amlinellu ymhellach pam y teimlai Llywodraeth Cymru ei bod yn gallu canmol y

---

8 Mae gwybodaeth am y broses ddeddfu yn Senedd y DU ar gael ar ei wefan

9 Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael), Bil Tŷ'r Cyffredin 5 (Saesneg yn unig)

10 Pan fo Bil wedi bod trwy'r trydydd darlleniad yn y ddau Dŷ Seneddol, fe'i dychwelir i'r Tŷ cyntaf (lle y dechreuodd) ar gyfer ystyried gwelliannau'r ail Dŷ (cynigion ar gyfer newid). Rhaid i'r ddau Dŷ gytuno ar union eiriad y Bil. Mae "Ping-pong" yn cyfeirio at y gwelliannau i Filiau sydd yn mynd yn ôl ac ymlaen rhwng Tŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi nes bod y ddau Dŷ yn cytuno ar union eiriad y Bil

11 Llythyr gan Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid at y Gwir Anrhydeddus David Lidington CBE AS, Canghellor Dugiaeth Lancaster a Gweinidog Swyddfa'r Cabinet, 24 Ebrill 2018 (Saesneg yn unig)

12 *Cytundeb Rhynglywodraethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin*, fel ar 24 Ebrill 2018 (Saesneg yn unig)

Cytundeb Rhynglywodraethol a gwelliannau arfaethedig Llywodraeth y DU i gymal 11 o'r Bil.[13]

**10.** Ar 27 Ebrill 2018, gosododd y Prif Weinidog gerbron y Cynulliad Cenedlaethol Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru (Memorandwm Rhif 2) ar y Bil[14] (yr LCM Atodol). Roedd yr LCM Atodol yn gysylltiedig â'r Bil fel y'i cyflwynwyd i Dŷ'r Arglwyddi yn ystod y darlleniad cyntaf (Bil Tŷ'r Arglwyddi 79[15]) gan gynnwys gwelliannau a gyflwynwyd ar gyfer Cyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi a gwelliannau heblaw rhai'r Llywodraeth y cytunwyd arnynt yn ystod cyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi.

**11.** Ar 14 Mai 2018, cyhoeddwyd ein hadroddiad ar yr LCM Atodol.[16]

**12.** Pleidleisiodd y Cynulliad Cenedlaethol i gymeradwyo cynnig cydsyniad deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil ar 15 Mai 2018.[17]

## Y pwerau yn Neddf 2018 i wneud rheoliadau

**13.** Mae Deddf 2018 yn rhannu cyfraith yr UE a ddargedwir (h.y. unrhyw gyfraith sydd, ar neu ar ôl y diwrnod ymadael, yn parhau i fod yn gyfraith ddomestig neu'n ffurfio rhan ohoni) yn dri chategori:

- Deddfwriaeth ddomestig sy'n deillio o'r UE (o dan adran 2 o Ddeddf 2018);
- Deddfwriaeth uniongyrchol yr UE (o dan adran 3 o Ddeddf 2018);
- Hawliau, pwerau, rhwymedigaethau ac ati sy'n codi o dan Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 (o dan adran 3 o Ddeddf 2018).

**14.** Mae Deddf 2018 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ddelio â diffygion sy'n deillio o'r DU yn ymadael ac i weithredu'r cytundeb ymadael. Gall Gweinidogion Cymru ddefnyddio'r pwerau gwneud rheoliadau hyn i addasu cyfraith yr UE a ddargedwir, yn amodol ar rai cyfyngiadau pwysig. Er enghraifft, ni all Gweinidogion Cymru ddefnyddio'r pwerau hynny i addasu

---

[13] 25 Ebrill 2018, Cofnod y Trafodion [238-362]

[14] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru (Memorandwm Rhif 2) ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael), Ebrill 2018

[15] Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael), Bil Tŷ'r Arglwyddi 79 (Saesneg yn unig)

[16] Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) Llywodraeth Cymru ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)*, Mai 2018

[17] 15 Mai 2018, Cofnod y Trafodion [144-314]

deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir pan fyddai'r newid yn groes i'r cyfyngiadau a osodir gan reoliadau Llywodraeth y DU (h.y. cyfyngiadau a osodir ar Weinidogion Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol mewn meysydd polisi sydd wedi rhewi tra bo fframweithiau cyffredin yn cael eu rhoi ar waith: gweler pennod 5 o'r adroddiad hwn).

**15.** Mae adran 11 o Ddeddf 2018 ac Atodlen 2 iddi yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n cyfateb i'r pwerau a roddir i Weinidogion y DU drwy adrannau 8 a 9 o Ddeddf 2018 (ond, fel y nodwyd ym mharagraff 14, mae pwerau gwneud rheoliadau Gweinidogion Cymru yn ddarostyngedig i gyfyngiadau nad ydynt yn gymwys i Weinidogion y DU):

- Mae adran 8 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion y DU wneud rheoliadau fel sy'n briodol yn eu barn hwy i atal, unioni neu liniaru unrhyw fethiant yn y gyfraith a ddargedwir i weithredu'n effeithiol neu unrhyw ddiffyg arall;
- Mae adran 9 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion y DU wneud rheoliadau fel sy'n briodol yn eu barn hwy i weithredu unrhyw gytundeb ymadael sy'n codi o ganlyniad i Erthygl 50(2) o'r Cytuniad ar yr Undeb Ewropeaidd.

**16.** Mae adran 14 o Ddeddf 2018 ac Atodlen 4 iddi yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn cysylltiad â ffioedd a thaliadau.

**17.** Mae adran 22 o Ddeddf 2018 ac Atodlen 7 iddi yn gwneud darpariaethau ynghylch y Cynulliad Cenedlaethol yn craffu ar reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf 2018, a phwyllgor o'r Cynulliad Cenedlaethol yn sifftio'r rheoliadau hynny.

**18.** Mae adran 23 o Ddeddf 2018 yn rhoi pwerau i Weinidogion y DU wneud rheoliadau mewn perthynas â darpariaethau canlyniadol a throsiannol fel sy'n briodol yn eu barn hwy o ganlyniad i Ddeddf 2018.

**19.** Mewn perthynas â gwneud rheoliadau mewn meysydd datganoledig, y canlyniad yw bod Deddf 2018 yn cynnwys cymysgedd cymhleth o bwerau cydamserol a phwerau ar y cyd sy'n arferadwy gan Weinidogion Cymru a Gweinidogion y DU.

**20.** Mae Tabl 1 yr adroddiad hwn yn crynhoi'r prif bwerau i wneud rheoliadau mewn meysydd datganoledig o dan Ddeddf 2018.

**21.** Mae’r adroddiad hwn yn ystyried materion gweithredol sy'n ymwneud â:

- cymhwyso'r broses sifftio i reoliadau sy'n deillio o Ddeddf 2018;

- craffu ar reoliadau a wneir gan Weinidogion y DU sy'n gweithredu ar eu pen eu hunain mewn meysydd datganoledig sy'n ystyried telerau'r Cytundeb Rhynglywodraethol;
- craffu ar reoliadau a wneir o dan adran 12 o Ddeddf 2018 ac Atodlen 3 iddi sy'n ymwneud â rhewi cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol a chymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru;
- y newidiadau i Reolau Sefydlog y Cynulliad Cenedlaethol (y Rheolau Sefydlog) sy'n angenrheidiol yn ein barn ni i roi sicrwydd a thryloywder i'r ffordd y gwneir rheoliadau o dan Ddeddf 2018.

**22.** O ran paragraff 21, rydym yn nodi'r teimladau y tu ôl i sylwadau'r Prif Weinidog mewn sesiwn â'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ac yn cytuno â hwy. Credwn fod ei sylwadau, a wnaed yn benodol mewn cysylltiad ag adran 12 o Ddeddf 2018, yn berthnasol yn ehangach, gan adlewyrchu arfer da gan roi'r sicrwydd a'r tryloywder ehangach sy'n hanfodol yn ein barn ni:

> "I am open to the idea that Standing Orders should be looked at to see how they can be used in order to provide a structure to something that we're happy to give an assurance on anyway."[18]

Tabl 1: Crynodeb o'r prif bwerau i wneud rheoliadau mewn meysydd datganoledig o dan Ddeddf yr UE (Ymadael) 2018

| Pŵer | Gellir ei arfer drwy | Adran neu Atodlen | Gosodwyd gerbron | A yw'r broses sifftio yn gymwys o dan y Ddeddf 2018 |
|---|---|---|---|---|
| **Cywiro diffygion yng nghyfraith yr UE a ddargedwir mewn meysydd datganoledig** | Gweinidogion y DU yn gweithredu ar eu pen eu hunain | Adran 8 | Senedd y DU | Ydy |
| | Gweinidogion Cymru yn gweithredu ar eu pen eu hunain | Rhan 1 o Atodlen 2 | Cynulliad Cenedlaethol Cymru | Ydy |
| | Gweinidogion y DU a Gweinidogion Cymru yn gweithredu ar y cyd | Rhan 1 o Atodlen 2 | Senedd y DU a Chynulliad Cenedlaethol Cymru | Nac ydy |
| | Gweinidogion y DU a Gweinidogion Cymru yn defnyddio pwerau cydamserol mewn offeryn cyfansawdd | Adran 8 (Gweinidogion y DU)<br>Rhan 1 o Atodlen 2 (Gweinidogion Cymru) | Senedd y DU a Chynulliad Cenedlaethol Cymru | Ydy |

[18] Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, Cofnod y Trafodion [121], 14 Mai 2018

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Gweithredu'r cytundeb ymadael mewn meysydd datganoledig | Gweinidogion y DU yn gweithredu ar eu pen eu hunain | Adran 9 | Senedd y DU | Ydy |
| | Gweinidogion Cymru yn gweithredu ar eu pen eu hunain | Rhan 2 o Atodlen 2 | Cynulliad Cenedlaethol Cymru | Ydy |
| | Gweinidogion y DU a Gweinidogion Cymru yn gweithredu ar y cyd | Rhan 2 o Atodlen 2 | Senedd y DU a Chynulliad Cenedlaethol Cymru | Nac ydy |
| | Gweinidogion y DU a Gweinidogion Cymru yn defnyddio pwerau cydamserol mewn offeryn cyfansawdd | Adran 9 (Gweinidogion y DU)<br>Rhan 2 o Atodlen 2 (Gweinidogion Cymru) | Senedd y DU a Chynulliad Cenedlaethol Cymru | Ydy |
| | | | | |
| Darpariaethau canlyniadol a throsiannol mewn meysydd datganoledig | Gweinidogion y DU yn gweithredu ar eu pen eu hunain | Adran 23 | Senedd y DU | Ydy |
| | | | | |
| Gosod ac addasu ffioedd a thaliadau mewn meysydd datganoledig | Gweinidogion y DU yn gweithredu ar eu pen eu hunain | Atodlen 4 | Senedd y DU | Nac ydy |
| | Gweinidogion Cymru yn gweithredu ar eu pen eu hunain | Atodlen 4 | Cynulliad Cenedlaethol Cymru | Nac ydy |
| | Gweinidogion y DU a Gweinidogion Cymru yn gweithredu ar y cyd | Atodlen 4 | Senedd y DU a Chynulliad Cenedlaethol Cymru | Nac ydy |
| | Gweinidogion y DU a Gweinidogion Cymru yn defnyddio pwerau cydamserol mewn offeryn cyfansawdd | Atodlen 4 | Senedd y DU a Chynulliad Cenedlaethol Cymru | Nac ydy |
| | | | | |
| Rheoliadau i rewi rhai meysydd yng nghyfraith yr UE a ddargedwir mewn meysydd datganoledig | Gweinidogion y DU yn gweithredu ar eu pen eu hunain (ond yn amodol ar delerau y cytunwyd arnynt yn y Cytundeb Rhynglywodraethol) | Adran 12 (h.y. o dan adran 109A newydd o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*)<br>Atodlen 3, Rhan 1 (h.y. o dan adran 80(8) newydd o Ddeddf 2006) | Senedd y DU (a phob amser yn ddarostyngedig i weithdrefn gadarnhaol) | Nac ydy (ond cyn y gall Gweinidogion y DU ei osod gerbron Senedd y DU, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud "penderfyniad cydsynio" (o fewn 40 diwrnod) |

# 3. Sifftio rheoliadau negyddol arfaethedig

## Y broses sifftio yn Neddf 2018

### Cefndir a thystiolaeth

**23.** Mae paragraff 4 o Atodlen 7 i Ddeddf 2018 yn darparu ar gyfer pwyllgor yn y Cynulliad Cenedlaethol i sifftio rhai rheoliadau y mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu eu gwneud o dan y weithdrefn negyddol[19] (yn yr adroddiad hwn, fe'u gelwir yn "rheoliadau negyddol arfaethedig") ac i argymell y weithdrefn briodol i'w dilyn. Mae manylion y broses sifftio a nodir yn Atodlen 7 i Ddeddf 2018, fel y mae'n gymwys i'r Cynulliad Cenedlaethol, fel a ganlyn:

- rhaid gosod yr holl reoliadau y bwriedir eu gwneud gan Weinidogion Cymru o dan y pwerau yn Rhannau 1 a 2 o Atodlen 2 (ac eithrio'r rhai sydd i'w gwneud ar y cyd â Gweinidogion y DU), ac y mae Gweinidogion Cymru o'r farn y dylid eu gwneud o dan y weithdrefn negyddol, gerbron y Cynulliad Cenedlaethol;
- o fewn cyfnod o 14 diwrnod calendr ar ôl gosod, ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud y rheoliadau negyddol arfaethedig (h.y. eu gwneud yn gyfraith), oni bai bod pwyllgor sifftio'r Cynulliad Cenedlaethol wedi gwneud argymhelliad ynghylch y weithdrefn briodol ar gyfer y rheoliadau;
- o fewn y 14 diwrnod calendr hynny, caiff pwyllgor sifftio'r Cynulliad Cenedlaethol ystyried y rheoliadau negyddol arfaethedig ac adrodd ar ei argymhelliad y dylai'r rheoliadau ddilyn gweithdrefn amgen (megis y weithdrefn gadarnhaol);
- ar ôl i'r 14 diwrnod calendr fynd heibio (neu yn gynt os bydd pwyllgor sifftio'r Cynulliad Cenedlaethol wedi gwneud argymhelliad), caiff Gweinidogion Cymru fynd ymlaen â'r rheoliadau negyddol arfaethedig o dan naill ai:
    - y weithdrefn a gaiff ei hargymell gan bwyllgor sifftio'r Cynulliad Cenedlaethol, fel y weithdrefn gadarnhaol (h.y. mae'n ofynnol cynnal dadl a phleidlais ar yr offeryn yn y Cynulliad Cenedlaethol cyn y caiff ei wneud a'i ddwyn i rym), neu

[19] Yn ein hadroddiad, *Craffu ar reoliadau a wnaed o dan Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)*, Rheoliadau Categori 1 (gweler paragraff 50)

- y weithdrefn negyddol (h.y. mae'r offeryn wedi'i wneud a chaiff ei ddwyn i rym, ond caiff ei ddiddymu os bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn penderfynu ei ddiddymu o fewn 40 diwrnod i'w osod).

**24.** Wrth wneud rheoliadau o dan Ddeddf 2018, mae gan Weinidogion y DU a Gweinidogion Cymru y pŵer i weithredu gyda'i gilydd naill ai trwy wneud rheoliadau ar y cyd[20] neu reoliadau cyfansawdd[21]. Dywedodd Arweinydd y Tŷ wrthym ei bod hi'n deall bod y dull sifftio yn gymwys i reoliadau cyfansawdd.[22] [23]

**25.** Diwygiwyd paragraff 3 o Atodlen 7 i Ddeddf 2018 yn hwyr iawn yn y broses ddeddfwriaethol yn Senedd y DU. Mae paragraff 3 o Atodlen 7 yn cynnwys gofyniad i Weinidogion y DU osod datganiad ysgrifenedig gerbron Senedd y DU os yw Gweinidogion y DU yn anghytuno ag argymhelliad pwyllgor sifftio Tŷ'r Cyffredin neu Dŷ'r Arglwyddi. Rhaid i'r datganiad ysgrifenedig esbonio pam mae Gweinidogion y DU yn anghytuno â'r argymhelliad. Ni roddir unrhyw ddyletswydd gyfatebol ar Weinidogion Cymru o ran rheoliadau a gaiff eu sifftio gan bwyllgor y Cynulliad Cenedlaethol.

## Ein barn

**26.** Rydym yn croesawu cynnwys y broses sifftio ar gyfer pwyllgor Cynulliad Cenedlaethol yn Neddf 2018, fel yr argymhellwyd yn ein hadroddiad cyntaf.[24]

**27.** Rydym yn nodi nad yw'r broses sifftio yn gymwys i reoliadau Atodlen 4 (gosod ac addasu ffioedd a thaliadau) a wneir gan Weinidogion y DU. Fodd bynnag, nid yw'n glir i ni a yw'r dull sifftio yn gymwys i reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan Atodlen 4.

**28.** Ein barn ni yw nad yw Deddf 2018 yn bwriadu gwahaniaethu rhwng rheoliadau Atodlen 4 a wneir gan Weinidogion Cymru a rheoliadau Atodlen 4 a wneir gan Weinidogion y DU. Fodd bynnag, mae natur gymhleth a thechnegol

---

[20] Yn ein hadroddiad, *Craffu ar reoliadau a wnaed o dan Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)*, Rheoliadau Categori 2 (gweler paragraff 50)

[21] Yn ein hadroddiad, *Craffu ar reoliadau a wnaed o dan Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)*, Rheoliadau Categori 3 (gweler paragraff 50)

[22] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion [13], 11 Mehefin 2018

[23] Mae Argymhelliad 6 o'n hadroddiad, *Craffu ar reoliadau a wnaed o dan Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)*, sy'n gysylltiedig ag argymhelliad 1, yn nodi y dylai rheoliadau Categori 1, 2 a 3 fod yn ddarostyngedig i'r dull sifftio.

[24] Argymhelliad 1 o'n hadroddiad, *Craffu ar reoliadau a wnaed o dan Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)*

iawn Deddf 2018 wedi arwain at ddryswch a diffyg eglurder, ac mae'r ffaith bod llawer o'r darpariaethau datganoli yn Neddf 2018 wedi cael eu hychwanegu heb ystyriaeth briodol yn gwaethygu'r sefyllfa.

**29.** Nid penderfyniad y pwyllgor sifftio wrth gwrs yw p'un a ellir gwneud rheoliadau heb ddilyn y broses sifftio. Mater i Weinidogion Cymru yw os ydynt yn teimlo y gallant wneud rheoliadau Atodlen 4 heb ddilyn y broses sifftio.

**30.** Dywedodd Arweinydd y Tŷ wrthym ei bod hi'n rhy gynnar yn y broses i ddweud a fyddent yn defnyddio pwerau o dan Atodlen 4.[25] Fodd bynnag, os yw Gweinidogion Cymru yn gwneud rheoliadau o dan Atodlen 4:

- heb ddilyn y broses sifftio, ond
- ein bod yn credu y dylent fod wedi dilyn y broses sifftio,

yna byddwn yn codi hyn yn yr adroddiadau arferol a baratoir gennym mewn perthynas â phob offeryn statudol o dan Reolau Sefydlog 21.2 a 21.3.

**31.** Rydym yn ystyried y gwahanol ofynion statudol sy'n bodoli yn Neddf 2018 ar gyfer gweithredu'r broses sifftio yn Senedd y DU a'r Cynulliad Cenedlaethol yn yr adran sy'n dwyn y pennawd *Argymhellion y pwyllgor sifftio yn rhai sy'n rhwymo*.

## Y Pwyllgor sifftio

### Cefndir a thystiolaeth

**32.** Yn ein hadroddiad cyntaf, gwnaethom argymell mai ni ddylai fod y pwyllgor sifftio at ddibenion Deddf 2018 ac y dylid diwygio'r Rheolau Sefydlog yn unol â hynny.[26] Cytunodd Llywodraeth Cymru i hyn mewn egwyddor, gan nodi mai mater i'r Cynulliad Cenedlaethol oedd penderfynu hyn, er nad oedd yn credu ei bod yn angenrheidiol diwygio'r Rheolau Sefydlog yn sgil hyn.[27]

**33.** Ar 5 Mehefin 2018, cytunodd y Pwyllgor Busnes mewn egwyddor mai ni ddylai fod y pwyllgor sifftio ond dywedodd Arweinydd y Tŷ yn glir bod ei

[25] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion [90], 11 Mehefin 2018

[26] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Craffu ar reoliadau a wnaed o dan y Bil Undeb Ewropeaidd (Ymadael)*, Chwefror 2018, argymhelliad 5

[27] Llythyr gan Julie James AC, Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip, 27 Mawrth 2018, sy'n cynnwys ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol - *Craffu ar reoliadau a wnaed o dan y Bil Undeb Ewropeaidd (Ymadael)*

chytundeb yn ddibynnol ar ddatrys y mater ynghylch maint y pwyllgor a chydbwysedd gwleidyddol mewn ffordd sy'n bodloni.[28]

### Ein barn

**34.** Rydym yn croesawu penderfyniad y Pwyllgor Busnes i gytuno mewn egwyddor mai'r Pwyllgor hwn ddylai fod y pwyllgor sifftio.

**35.** Rydym o'r farn ei bod yn briodol diwygio'r Rheolau Sefydlog i adlewyrchu pwysigrwydd y swyddogaeth sifftio sy'n cael ei haseinio i bwyllgor y Cynulliad Cenedlaethol gan Ddeddf sydd o bwysigrwydd cyfansoddiadol. Y rheswm dros hyn yw y byddai:

- yn gwella tryloywder;
- yn rhoi sicrwydd i'r pwyllgor sydd â'r swyddogaeth sifftio;
- yn sicrhau cysylltiad cydlynol â newidiadau eraill yn y Rheolau Sefydlog sy'n ymwneud â chraffu ar reoliadau a wneir o dan Ddeddf 2018;
- yn gyson â'r arfer bresennol yn y Rheolau Sefydlog.

**36.** Am y rhesymau hyn, nid ydym yn rhannu barn Llywodraeth Cymru nad oes angen newidiadau i'r Rheolau Sefydlog. Fodd bynnag, mae ein hargymhellion isod yn egluro sut y dylid diwygio'r Rheolau Sefydlog yn ein barn ni.

**Argymhelliad 1.** Rydym yn argymell y dylid diwygio Rheolau Sefydlog y Cynulliad Cenedlaethol i ddarparu bod y swyddogaeth o wneud argymhelliad ynghylch y weithdrefn briodol i'w defnyddio ar gyfer rheoliadau sy'n ddarostyngedig i'r broses sifftio o dan Ddeddf 2018 yn cael ei haseinio i bwyllgor.

## Maint y Pwyllgor

### Cefndir a thystiolaeth

**37.** Mewn llythyr atom ni ar 9 Mai 2018, gofynnodd y Llywydd am ein barn ar faint ein Pwyllgor, gan ddweud:

> "Bu'r Rheolwyr Busnes yn ystyried maint eich Pwyllgor. Roeddent yn cydnabod manteision y ffordd amhleidiol yr ydych chi a'ch pwyllgor rhagflaenol wedi gallu gweithredu'n llwyddiannus gyda nifer fechan o Aelodau ac heb gydbwysedd rhwng y pleidiau. Fodd bynnag, roeddent

[28] Cofnodion y Pwyllgor Busnes, 5 Mehefin 2018

> yn teimlo, pe bai rôl y Pwyllgor yn ehangu i gynnwys gwaith sifftio a chraffu ar ddeddfwriaeth sylfaenol (fel yr ydych wedi nodi eich bod yn dymuno'i wneud), efallai y bydd angen i'r aelodaeth newid."[29]

**38.** Gwnaethom ymateb ar 24 Mai 2018, gan nodi bod angen seilio'r rhesymau dros newid maint presennol y Pwyllgor ar sail resymegol gadarn a bod goblygiadau newid o'r fath yn glir. Gwnaethom hefyd ddeg sylw penodol y dylid eu hystyried wrth wneud penderfyniad ynghylch unrhyw newid i faint y Pwyllgor yn ein barn ni.[30]

**39.** Fel y nodwn uchod, ystyriodd y Pwyllgor Busnes y mater hwn ymhellach ar 5, 12 a 26 Mehefin 2018.

**40.** Ar 26 Mehefin 2018, penderfynodd y Pwyllgor Busnes y dylid cynyddu aelodaeth y Pwyllgor i 6 Aelod. Nododd y cofnodion:

> "Business Managers made a decision by majority vote to expand the committee's membership to 6 Members, and to make it more politically balanced by adding 2 Labour Members to the current membership, before it became the sifting committee under the European Union (Withdrawal) Bill. Paul Davies requested that his objection be minuted.
>
> Business Managers agreed that the membership change should be timed so that it takes effect in parallel to changes to Standing Orders on a sifting committee."[31]

## Ein barn

**41.** Gan mai ni fydd y pwyllgor sifftio at ddibenion Deddf 2018 (ar sail penderfyniadau'r Pwyllgor Busnes ar 5 a 26 Mehefin 2018, a'r cynnydd yn ein maint i 6 Aelod maes o law), mae ein hadroddiad yn adlewyrchu hynny.

**42.** Fel y nodwyd yn ein llythyr ar 24 Mai 2018, buom ni a'n Pwyllgor rhagflaenol yn gweithredu ar sail egwyddor cyfansoddiadol a deddfwriaethol wrth wneud argymhellion ynghylch ansawdd deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth a'n nod fydd parhau â'r arfer hwnnw mewn cysylltiad â'r swyddogaeth honno.

---

[29] Llythyr gan y Llywydd, 9 Mai 2018

[30] Llythyr at y Llywydd, 24 Mai 2018

[31] Cofnodion y Pwyllgor Busnes, 26 Mehefin 2018

## Meini prawf sifftio

### Cefndir a thystiolaeth

**43.** Yn ein hadroddiad cyntaf, roeddem yn argymell bod y meini prawf sifftio sydd wedi'u nodi ym mharagraff 35(b) o'r adroddiad hwnnw yn cael eu cymhwyso i'r holl reoliadau perthnasol a wneir o dan y Bil (fel yr oedd ar y pryd) ac a osodir gerbron y Cynulliad Cenedlaethol, ac y dylid nodi'r meini prawf yn Rheolau Sefydlog y Cynulliad Cenedlaethol.

**44.** Ceir copi o'r meini prawf sifftio a nodir ym mharagraff 35(b) o'n hadroddiad cyntaf isod:

- a oes digon o eglurder a thryloywder yn y memorandwm ynghylch pam mae'r Gweinidog o'r farn y dylai'r weithdrefn penderfyniad negyddol fod yn gymwys. Os nad yw'r memorandwm yn ddigon eglur a thryloyw ynglŷn â pham y dylid cymhwyso'r weithdrefn penderfyniad negyddol, dylai'r pwyllgor sifftio fod yn ofalus iawn am fwrw ymlaen â'r weithdrefn penderfyniad negyddol. Rydym yn nodi bod y deunydd esboniadol yn aml yn anghyson o ran eglurder a thryloywder: lle mae'r deunydd yn taro deuddeg, gall y broses graffu fod yn effeithlon ac yn effeithiol; fodd bynnag, lle nad yw'r deunydd yn gwneud hynny, gall y broses graffu fod yn araf ac yn llai cadarn ar adegau. Credwn fod hon yn gyfle i godi safonau yn gyffredinol mewn perthynas â deunydd esboniadol;
- a yw'r memorandwm yn ddigon clir a thryloyw o ran y newidiadau y mae'r rheoliadau yn eu gwneud. Byddem yn disgwyl i'r memorandwm fod yn glir a thryloyw ynghylch yr hyn sy'n cael ei newid, y rheswm dros ei newid a'r effaith y bydd y newid hwnnw'n ei chael;
- a fu ymgynghori digonol. Unwaith eto, byddem yn disgwyl i'r memorandwm fod yn glir ac yn dryloyw o ran y drefn ymgynghori;
- a yw'r memorandwm yn ddigon clir a thryloyw ynghylch yr effaith y gall rheoliadau ei chael ar gydraddoldeb a hawliau dynol. Unwaith eto, bydd diffyg eglurder a thryloywder yn naturiol yn codi amheuon ynghylch unrhyw gynnig sy'n dilyn y weithdrefn penderfyniad negyddol;
- a yw'r rheoliadau'n codi materion o bwys cyhoeddus, gwleidyddol neu gyfreithiol. Mae hyn yn rhoi gallu cyffredinol i'r pwyllgor ystyried y rheoliadau yn eu cyfanrwydd a defnyddio ei brofiad a'i arbenigedd i bennu'r weithdrefn y dylid ei chymhwyso.

**45.** Yn ei hymateb i'n hadroddiad, nododd Llywodraeth Cymru:

> "Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod y bydd angen i'r pwyllgor sifftio gytuno ar y meini prawf i'w defnyddio ar gyfer cyflawni'r broses sifftio. Er hynny, bydd angen i'r meini prawf hyn fod yn gyson â'r fframwaith terfynol ar gyfer y mecanwaith sifftio, a bod angen i'r Cynulliad gadw rhywfaint o hyblygrwydd yn hyn o beth. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi'i darbwyllo felly y dylai'r meini prawf gael eu cynnwys yn y Rheolau Sefydlog."[32]

**46.** Pan ofynnwyd i Arweinydd y Tŷ beth oedd ystyr datganiad Llywodraeth Cymru pan ddywedodd fod angen i'r meini prawf sifftio fod yn gyson â'r fframwaith terfynol ar gyfer y dull sifftio, dywedodd wrthym:

> "We're assuming that it will be set out. So, if we're going to add something to it, we want to be very clear why we would be doing that, whether it's possible, given the final wording of the Act, and whether we're not crossing across with a policy committee."[33]

**47.** Ychwanegodd:

> "… once we see what the final form looks like, then it is, I'm sure, possible to come up with an agreed formula and to see whether there is indeed something we want to add or not add. But, until we see what it is, it's difficult to do that."[34]

## Ein barn

**48.** Erbyn meddwl, rydym yn derbyn barn Llywodraeth Cymru na ddylid cynnwys y meini prawf sifftio yn y Rheolau Sefydlog. Serch hynny, credwn y dylai fod gofyniad yn y Rheolau Sefydlog i'r pwyllgor sifftio gyhoeddi ei feini prawf sifftio.

**Argymhelliad 2.** Rydym yn argymell y dylai Rheolau Sefydlog y Cynulliad Cenedlaethol ei gwneud yn ofynnol i ni, sef y pwyllgor sydd â'r swyddogaeth o sifftio rheoliadau o dan Ddeddf 2018, gyhoeddi'r meini prawf y byddwn yn eu cymhwyso i reoliadau sy'n ddarostyngedig i'r broses sifftio.

---

[32] Llythyr gan Julie James AC, Arweinydd y Tŷ, sy'n cynnwys ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol - *Craffu ar reoliadau a wnaed o dan y Bil Undeb Ewropeaidd (Ymadael)*, 27 Mawrth 2018

[33] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion [85], 11 Mehefin 2018

[34] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion [87], 11 Mehefin 2018

**49.** Wrth lunio barn yn erbyn y meini prawf a nodir gennym, rydym yn debygol o ystyried a yw'r memorandwm esboniadol yn esbonio'n ddigonol:

- pa rwymedigaethau a gofynion yr UE y mae'r rheoliadau'n ymwneud â hwy;
- a yw'n troi cefn ar unrhyw rwymedigaethau'r UE neu'n eu newid ac os felly sut y cyflawnir hyn;
- pa ddeddfwriaeth y mae'r rheoliadau yn ei diwygio a sut y cyflawnir hyn;
- a yw rhwymedigaethau'r UE yn cael eu hailadrodd neu eu diwygio a sut y cyflawnir hyn;
- pa ddyletswyddau neu rwymedigaethau newydd, os o gwbl, sy'n cael eu rhoi ar unrhyw gyrff cyhoeddus.

**50.** Wrth fabwysiadu'r dull hwn, rydym am bwysleisio ein barn ni, fod rhaid i Lywodraeth Cymru, fel rhan o'r broses sifftio, egluro'n glir ac yn ddigonol pam ei bod yn gwneud newidiadau deddfwriaethol. Yn ein barn ni, byddai methu â gwneud hynny yn rheswm dilys dros gymhwyso'r weithdrefn gadarnhaol i'r rheoliadau.

**51.** Dylai'r dull y bwriadwn ei ddilyn hefyd helpu pwyllgorau polisi i asesu goblygiadau'r rheoliadau yn haws.

**52.** Byddwn yn ystyried adeiladu ar y cydberthnasau a ddatblygwyd yn ystod y Fforwm Rhynglywodraethol ar Brexit[35] i sicrhau bod cydweithredu a chyd-ddealltwriaeth yn elfennau pwysig o'r gwaith craffu ar offerynnau ar y cyd ac offerynnau cyfansawdd.

## Argymhellion y pwyllgor sifftio yn rhai sy'n rhwymo

### Cefndir a thystiolaeth

**53.** Ar 7 Mawrth 2018,[36] bu'r Cynulliad Cenedlaethol yn trafod ein hadroddiad cyntaf. Canolbwyntiodd yr adroddiad ar ddiwygiadau y dylid eu gwneud i'r Bil yn

[35] Sefydlwyd y Fforwm Rhyngseneddol ar Brexit ym mis Hydref 2017. Mae'n dwyn ynghyd Gadeiryddion, Cynullyddion a chynrychiolwyr pwyllgorau sy'n craffu ar faterion yn ymwneud â Brexit yn Senedd yr Alban, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Tŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi er mwyn trafod a chraffu ar broses y DU o ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Mae swyddogion o Gynulliad Gogledd Iwerddon yn mynychu fel sylwedyddion ar hyn o bryd.

[36] 7 Mawrth 2018 [477-538]

ein barn ni, ac ymdriniwyd â chwestiynau a godwyd gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru (yr Ysgrifennydd Gwladol) mewn llythyr at y Llywydd ar 16 Ionawr 2018[37].

**54.** Gwnaeth ein hadroddiad cyntaf saith argymhelliad, gyda phedwar ohonynt yn argymell gwelliannau i'r Bil. Am y rheswm hwnnw, roeddem o'r farn ei bod yn briodol gofyn barn y Cynulliad Cenedlaethol ynghylch yr argymhellion hynny, ac roedd y cynnig yn gofyn i'r Cynulliad Cenedlaethol nodi adroddiad y Pwyllgor hefyd yn gofyn iddo gymeradwyo argymhellion 1, 2, 4 a 7. Ar 7 Mawrth 2018, derbyniwyd y cynnig hwnnw heb wrthwynebiad ac ysgrifennodd y Llywydd at yr Ysgrifennydd Gwladol ar 22 Mawrth 2018 yn rhoi gwybod iddo am ganlyniad y ddadl.[38]

**55.** Yn dilyn hynny, ysgrifennodd Arweinydd y Tŷ atom yn gwrthod argymhelliad 2, sef y dylai argymhellion y pwyllgor sifftio fod yn rhai sy'n rhwymo oni bai bod y Cynulliad Cenedlaethol yn penderfynu fel arall. Yn dilyn hynny, gwnaeth Cadeirydd y Pwyllgor ddatganiad yn y Cyfarfod Llawn ynghylch yr anghysondeb yn safbwynt Llywodraeth Cymru, gan nodi nad oedd Llywodraeth Cymru yn ceisio diwygio'r cynnig i adlewyrchu'r safbwynt hwnnw.

**56.** Ysgrifennodd y Llywydd at y Prif Weinidog ar 1 Mai 2018 yn nodi:

> "O ran safbwynt y Cynulliad ar weithdrefnau'r pwyllgor sifftio, byddwn yn disgwyl i'r Llywodraeth gefnogi, yn amodol ar destun terfynol y Bil Ymadael a'r gwaith manwl pellach y mae'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn ei wneud ar hyn o bryd, newidiadau i'r Rheolau Sefydlog a fydd yn golygu y bydd y gwaith ymarferol o gymhwyso unrhyw weithdrefn newydd yn adlewyrchu'r argymhellion a gymeradwywyd gan y Cynulliad."[39]

**57.** Mewn llythyr atom ar 9 Mai 2018 ynghylch adolygiad posibl o'r Rheolau Sefydlog, nododd y Llywydd y canlynol am y Rheolwyr Busnes:

> "Penderfynasant ganolbwyntio am y tro ar y newidiadau sydd i ddod i'r Rheolau Sefydlog a fydd yn ofynnol i weithredu'r ddarpariaeth ynghylch craffu ar is-ddeddfwriaeth ym Mil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael). Bydd hyn yn cynnwys ailddechrau trafodaeth ar y

[37] Llythyr gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru, y Gwir Anrhydeddus Alun Cairns AS at Elin Jones, AC, y Llywydd *Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)*, 16 Ionawr 2018 (Saesneg yn unig)

[38] Llythyr gan Elin Jones AC, y Llywydd, at y Gwir Anrh. Alun Cairns AS, Ysgrifennydd Gwladol Cymru, 22 Mawrth 2018 (Saesneg yn unig)

[39] Llythyr gan Elin Jones AC, y Llywydd at y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC, y Prif Weinidog, 1 Mai 2018

> gwahaniaeth barn rhwng y Cynulliad a Llywodraeth Cymru ynghylch a ddylai argymhellion y pwyllgor sifftio fod yn rhwymol. Fel y gwyddoch, gellir cyflwyno cynigion i'r Cynulliad ar gyfer newidiadau i'r Rheolau Sefydlog drwy benderfyniad mwyafrif syml (drwy bleidlais wedi'i phwysoli) gan y Pwyllgor Busnes, ond mae angen cefnogaeth gan ddwy ran o dair o'r Aelodau sy'n pleidleisio yn y Cyfarfod Llawn i'w weithredu."[40]

**58.** Fel y nodwyd yn gynharach, roedd y Bil yn cynnwys, yn hwyr iawn yn y broses, gofyniad i Weinidogion y DU osod datganiad ysgrifenedig gerbron Senedd y DU os yw Gweinidogion y DU yn anghytuno ag argymhelliad pwyllgor sifftio Tŷ'r Cyffredin neu Dŷ'r Arglwyddi.[41] Wrth egluro'r rheswm dros hyn, dywedodd yr Arglwydd Callanan:

> "I know that it will not have been the intention of the noble Baroness to impinge on the competence or procedures of the devolved Administrations and Parliaments, and I am sure it was not her intention to create an unprecedented position in which devolved legislation made by a devolved Minister should be considered by this Parliament. This could, of course, be solved by some radical changes in the drafting, but the issue has been addressed in our amendment by providing that it applies only to instruments made by UK Ministers before this Parliament. This is doubly important at this late stage in the Bill's passage, when there is no time to seek supplementary legislative consent from the devolved Assemblies."[42]

## Ein barn

**59.** Pwrpas argymhelliad 2 o'n hadroddiad cyntaf oedd cryfhau'r broses sifftio a'i gwneud yn fwy ystyrlon. Yn hyn o beth, roedd yn cydymffurfio ag argymhellion a wnaed gan bwyllgorau seneddol yn San Steffan.[43]

**60.** Er y byddai wedi bod yn well gennym pe bai ein hargymhellion ynghylch canlyniad ein gwaith sifftio ar reoliadau negyddol arfaethedig yn rhwymo

---

[40] Llythyr gan Elin Jones AC, y Llywydd, 9 Mai 2018

[41] Paragraff 3 o Atodlen 7 i Ddeddf 2018 (Saesneg yn unig)

[42] Dadl Tŷ'r Arglwyddi, 18 Mehefin 2018, c1868 (Saesneg yn unig)

[43] Er enghraifft, Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio Tŷ'r Arglwyddi, European Union (Withdrawal) Bill), 12fed Adroddiad Sesiwn 2017-19, Papur Tŷ'r Arglwyddi 73, Chwefror 2018, paragraff 58 (Saesneg yn unig)

Gweinidogion Cymru, nid yw Deddf 2018 yn gosod unrhyw ofyniad o'r fath ar Weinidogion Cymru na Gweinidogion y DU.

**61.** Yn ein barn ni, byddai'n synhwyrol sicrhau dull cydradd o ran craffu ar reoliadau negyddol arfaethedig i sicrhau bod penderfyniadau ynghylch pwy ddylai weithredu mewn meysydd datganoledig yn cael eu seilio ar rinweddau'r rheoliadau dan sylw, yn hytrach na natur y gyfundrefn archwilio y maent yn ddarostyngedig iddynt.

**62.** Nodwn fod newidiadau hwyr i'r Bil wedi arwain at ddarpariaeth newydd sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion y DU osod datganiad ysgrifenedig gerbron Senedd y DU os yw Gweinidogion y DU yn anghytuno ag argymhelliad pwyllgor sifftio. Ni chafodd y darpariaethau hyn eu hymestyn i'r Cynulliad Cenedlaethol oherwydd nid oedd modd cael y cydsyniad deddfwriaethol mewn pryd yn ôl Llywodraeth y DU.

**63.** Yn unol â'n barn ni y dylai fod dull cydradd, credwn y dylid cynnwys darpariaeth yn y Rheolau Sefydlog i adlewyrchu'r rhwymedigaethau statudol a roddir ar Weinidogion y DU. Byddai'n hurt bod Gweinidogion y DU yn destun gweithdrefn graffu fwy trylwyr wrth weithredu mewn meysydd datganoledig na Gweinidogion Cymru sy'n gweithredu yn yr un meysydd, yn enwedig oherwydd y diffyg amser i gael y cydsyniad deddfwriaethol i wneud darpariaeth gyfatebol neu i'r Cynulliad Cenedlaethol ddeddfu ar faterion gweithdrefnol. Byddai methu â dyblygu darpariaethau yn y modd hwn yn dangos arfer gwael yn ogystal â diffyg parch at y Cynulliad Cenedlaethol.

**64.** Rydym yn cydnabod bod y Cynulliad Cenedlaethol wedi gwneud penderfyniad fel y dylai argymhellion y pwyllgor sifftio fod yn rhwymol. Fodd bynnag, yng ngoleuni testun terfynol Deddf 2018, nid ydym yn gweld unrhyw reswm pam na all y Cynulliad Cenedlaethol ailystyried y safbwynt hwn os yw'n dymuno gwneud hynny. Gellid cyflawni hyn, er enghraifft, trwy gynnig i gytuno ar newidiadau i'r Rheolau Sefydlog sy'n ymwneud â gweithrediad y pwyllgor sifftio.

**Argymhelliad 3.** Os yw'r Cynulliad Cenedlaethol yn fodlon na fydd ein hargymhellion ni fel y pwyllgor sifftio yn rhwymol, rydym yn argymell y dylid diwygio'r Rheolau Sefydlog i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru esbonio pam nad ydynt yn cytuno â'n hargymhellion (fel sy'n gymwys i Weinidogion y DU ym mharagraff 3(7) o Atodlen 7 i Ddeddf 2018).

## 14 diwrnod calendr ar gyfer sifftio

### Cefndir a thystiolaeth

**65.** Mae paragraff 4 o Atodlen 7 i Ddeddf 2018 yn nodi'r broses i'w dilyn i sifftio rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru. Yn unol â'r ddarpariaeth honno, bydd gennym 14 diwrnod calendr i wneud penderfyniad.

**66.** Mae Deddf 2018 yn rhoi 10 diwrnod eistedd i bwyllgorau San Steffan gynnal sifft. O ganlyniad i'r diffiniad o ddiwrnod eistedd, bydd y cyfnod eistedd 10 diwrnod yn para amgyfnod o rhwng 17 ac 20 diwrnod calendr yn Nhŷ'r Cyffredin.[44]

**67.** Nid yw'r Cynulliad Cenedlaethol yn defnyddio'r term "diwrnodau eistedd". Yn hytrach, rhoddwyd 14 diwrnod calendr i ni (ac eithrio unrhyw amser y mae'r Cynulliad wedi'i ddiddymu neu mewn toriad am gyfnod hwy na phedwar diwrnod). Dyma'r cyfnod hwyaf posibl sydd ar gael i ni sifftio ac mae cryn dipyn yn fyrrach na'r amser a allai fod ar gael i bwyllgorau San Steffan.

**68.** Gwnaethom ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol ynghylch y gwahaniaethau rhwng yr amser sydd ar gael i bwyllgor y Cynulliad sifftio a'r amser sydd ar gael i'r rheini yn Senedd y DU.[45] Gwnaethom awgrymu hefyd un opsiwn fel ateb i'r broblem. Mewn ymateb dywedodd yr Ysgrifennydd Gwladol wrthym:

> "You are right to point to the different arrangements in the Assembly compared to Westminster. These differences mean that it is not appropriate to define the length of time committees in the Assembly are given to carry out a sift in the same terms as Parliamentary Committees. Following consultation with the Welsh Government we determined that a 14-day period, discounting days on which the Assembly is dissolved or in recess for a period of more than four days, would be an appropriate time period to carry out a sift."[46]

**69.** Codwyd y materion hyn gydag Arweinydd y Tŷ, gan gyfeirio at farn yr Ysgrifennydd Gwladol. Dywedodd wrthym:

---

[44] Pwyllgor Gweithdrefnau Tŷ'r Cyffredin, *Scrutiny of delegated legislation under the European Union (Withdrawal) Act 2018*, chweched adroddiad sesiwn 2017-2019, Tŷ'r Cyffredin 1395, 9 Gorffennaf 2018

[45] Llythyr at y Gwir Anrhydeddus Alun Cairns AS, Ysgrifennydd Gwladol Cymru, *Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)*, 11 Mai 2018 (Saesneg yn unig)

[46] Llythyr gan y Gwir Anrhydeddus Alun Cairns AS, Ysgrifennydd Gwladol Cymru, 3 Mehefin 2018 (Saesneg yn unig)

> "It's a matter for the Secretary of State what evidence he gives to the committee. (...) What we've sought to do is to get an amount of time that is doable in the timescale and fits into our procedures, and it's a difficulty because, in procedures, a sitting day definition isn't the same and there are differences of approach, and so on. But we've tried to make sure that we have, effectively, two weeks to get through it, with a view to the committee having the chance to have a good look at it in all the circumstances. I'm not sure that if we'd started with a blank piece of paper this would be where we are, but it's doable, it seems to us."[47]

**70.** Aethom ar drywydd y mater hwn trwy ofyn pam y gwnaeth Llywodraeth Cymru ymateb i Lywodraeth y DU ar y mater gweithdrefnol hwn heb drafod y mater gyda'r Llywydd neu'r Pwyllgor hwn. Dywedodd Arweinydd y Tŷ wrthym:

> "The UK Government approached us and we've responded as part of a suite of things we were talking about. It's certainly not our intention to cut out either the Assembly itself or the committee, and we certainly would not have set about doing that. I think you need to ask the Secretary of State how we've ended up here. So, what we've done is gone along with the UK Government's approach to this and sought to include everybody as appropriate. So, I would just like to reassure the committee that we entirely don't want any impression of that sort to be given, and obviously it's not a matter for us; we're just all trying to negotiate the best possible procedure here. We have a good relationship with the Commission and we've been working very hard to make sure that this all works as well as it possibly can."[48]

## Ein barn

**71.** Fel y nodwyd yn ein hadroddiad cyntaf, heb ildio i'r egwyddor ehangach y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol osod ei weithdrefnau craffu ei hun, derbyniwyd, oherwydd rhesymau ymarferol, y byddai angen i Ddeddf 2018 ddirprwyo pwerau i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth ac y byddai angen iddo, yn unol â hynny, osod y weithdrefn sydd ynghlwm wrth y pwerau gwneud rheoliadau hynny.

**72.** Fodd bynnag, nid oedd y ffaith ein bod yn derbyn hynny yn golygu bod unrhyw amgylchiadau lle y dylid eithrio'r Cynulliad Cenedlaethol, yn ein barn ni,

[47] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion [64], 11 Mehefin 2018
[48] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion [66], 11 Mehefin 2018

rhag o leiaf gyfrannu at benderfyniadau ar y weithdrefn graffu a ddylai fod yn gymwys i arfer y pwerau hynny.

**73.** Mae Llywodraeth Cymru wedi pwysleisio'n gyson fod y gweithdrefnau sy'n ymwneud â chraffu yn y Cynulliad Cenedlaethol yn fater i'r Cynulliad Cenedlaethol benderfynu arno a phwysleisiodd Arweinydd y Tŷ wrthym y berthynas dda sydd rhwng Llywodraeth Cymru a swyddogion y Cynulliad.

**74.** Yn ei lythyr ar 3 Mehefin 2018, eglurodd yr Ysgrifennydd Gwladol fod ei adran wedi ymgynghori â swyddogion Comisiwn y Cynulliad ynghylch Canllawiau ar Ddatganoli a dim ond un o lawer o ddarnau o ohebiaeth rhwng rhannau hanfodol o'r Cynulliad Cenedlaethol a'i swyddfa ef yw hwn.

**75.** Felly, mae'n siomedig iawn na wnaeth yr Ysgrifennydd Gwladol na Llywodraeth Cymru ystyried ymgynghori â'r Llywydd neu'r Pwyllgor hwn am faterion yn ymwneud â'r weithdrefn graffu benodol hon. Nid yw'n briodol mai Llywodraeth Cymru yw'r unig ymgynghorai ynghylch gweithdrefn graffu benodol (sifftio) y mae Llywodraeth Cymru ei hun yn ddarostyngedig iddi.

**76.** O gofio'r berthynas sydd wedi ei meithrin, nid ydym yn credu ei bod yn afresymol disgwyl bod yr Ysgrifennydd Gwladol neu Lywodraeth Cymru wedi cysylltu â'r Lywydd neu'r Pwyllgor hwn, gyda'r bwriad o ddod o hyd i ateb priodol. Rydym yn sicr yn credu y byddai wedi bod yn syml i'r Cynulliad Cenedlaethol, Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru gytuno ar safbwynt mewn ysbryd o gydweithio a chydweithredu.

**77.** Mae'r amgylchiadau hyn yn anffodus ac yn adlewyrchu rhyw elfen o laesu dwylo ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol a Llywodraeth Cymru. Maent hefyd yn amharchus tuag at y Cynulliad Cenedlaethol fel deddfwrfa a dylai'r ddwy weithrediaeth sicrhau na fydd amgylchiadau o'r fath yn codi eto.

## Nifer y rheoliadau a'r goblygiadau o ran craffu

### Cefndir a thystiolaeth: nifer y rheoliadau a phryd y'u disgwylir gyntaf

**78.** Ar 14 Rhagfyr 2017, gwnaethom ysgrifennu at Arweinydd y Tŷ yn gofyn am amcangyfrif o nifer y rheoliadau y byddai angen i Weinidogion Cymru eu gwneud o ganlyniad i'r DU yn ymadael â'r UE.[49] Eglurodd ymateb Arweinydd y Tŷ ddechrau mis Ionawr 2018 fod Llywodraeth Cymru yn ymgymryd â gwaith a oedd yn ceisio nodi'r ddeddfwriaeth bresennol a phenderfynu a allai fod yn ddiffygiol, ac os felly,

[49] Llythyr at Julie James AC, Arweinydd y Tŷ, *Is-ddeddfwriaeth o ganlyniad i'r DU yn ymadael â'r UE*, 14 Rhagfyr 2017

ym mha ffordd. Roedd y llythyr hefyd yn dweud, ar yr adeg honno, fod mwy na 600 o offerynnau deddfwriaethol domestig sy'n deillio o'r UE sy'n dod o fewn cymhwysedd datganoledig Cymru wedi'u nodi.

**79.** Ar 7 Mawrth 2018, ysgrifennodd Arweinydd y Tŷ atom gyda diweddariad, ac esboniodd:

> "Mae dadansoddiad pellach (sy'n parhau i fynd rhagddo) wedi gostwng y nifer hwn i tua 400 o offerynnau diffygiol sy'n debygol o fod angen sylw. Amcangyfrifir ar hyn o bryd y bydd tua 20 o'r rheiny angen eu trin drwy offeryn cywiro 'unigol' penodol, gyda thua 380 yn medru cael sylw drwy ddarpariaethau mewn offerynnau cywiro cyfunol."[50]

**80.** Dywedodd Arweinydd y Tŷ hefyd fod nifer yr offerynnau sy'n ofynnol yn debygol o newid yn seiliedig ar nifer y diffygion a nodwyd ym mhob offeryn deddfwriaethol, natur y diffygion hynny, a chymhlethdod yr atebion y bydd eu hangen i'w cywiro.[51]

**81.** Ar 11 Mehefin 2018, gofynnwyd i Arweinydd y Tŷ roi diweddariad pellach. Dywedodd wrthym:

> "We think that there are probably around 400 EU-derived domestic legislative instruments that contain deficiencies that need correcting. We haven't identified any further yet, but we're not ruling out that that's not the full suite. Obviously, it's an ongoing process.
>
> … it's very difficult to say exactly how many SIs will be in play, but we aim to have as smooth a process as possible… We want to make sure that everybody is as fully in the picture about where we are, how many SIs there might be in any particular category and what the timescales are as it's humanly possible to make it. But you'll appreciate it's a very fluid position, and we're not fully in the picture. I don't say that as any criticism, as I suspect it's because the officials themselves are not fully in the picture."[52]

**82.** Eglurodd y Prif Weinidog i'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, y dull a fyddai'n cael ei fabwysiadu:

---

[50] Llythyr gan Julie James AC, Arweinydd y Tŷ, 4 Ionawr 2018

[51] Llythyr gan Julie James AC, Arweinydd y Tŷ, 7 Mawrth 2018

[52] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion [7 a 9], 11 Mehefin 2018

> "In terms of the approach that I've asked officials to take in Government, my normal approach is where there is legislation, whether it's regulations or secondary legislation, the assumption is that it should be made on a Wales-only basis. In the environmental field, there are lots of England-and-Wales regulations, historically, and I've been keen to move away from that template as being the default template. But I have said to officials that when it comes to a lot of the uncontroversial, technical regulations that may surround Brexit, actually, there may well be scope for that to be done by Parliament and by Whitehall, rather than by us, because their capacity is much bigger than ours, unless there is a political or policy reason why we should take the decision that, actually—. A lot of the technical stuff we would expect to be dealt with with our consent by the Whitehall departments."[53]

**83.** Mewn llythyr dyddiedig 28 Mehefin 2018, cadarnhaodd Arweinydd y Tŷ y safbwynt hwn.[54]

**84.** O ran rheoliadau y gellid eu gwneud o dan Atodlen 4 i Ddeddf 2018, dywedodd Arweinydd y Tŷ wrthym:

> "To be honest, I don't think we've given much, if any, consideration to that at the moment. I think we're grappling with the procedural issues. I honestly don't know. I think it's far too early to say whether we'll use the power at all, never mind to do what."[55]

**85.** Rydym wedi nodi'r dystiolaeth a roddwyd i Bwyllgor Gweithdrefnau Tŷ'r Cyffredin ar 2 Mai 2018 gan y Gwir Anrhydeddus Andrea Leadsom AS, Arglwydd Lywydd y Cyngor ac Arweinydd Tŷ'r Cyffredin, a Mr Steve Baker AS, Is-ysgrifennydd Seneddol, yr Adran dros Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.[56] Yn ystod y cyfarfod hwnnw, rhoddodd Arweinydd Tŷ'r Cyffredin ddiweddariad ar nifer y rheoliadau cywiro y mae Llywodraeth y DU wedi'u nodi. Hefyd, rhoddodd yr Is-ysgrifennydd Seneddol wybod i'r Pwyllgor Gweithdrefnau, yn seiliedig ar yr amserlen bresennol (ar y pryd) i'r Bil fynd drwy Senedd y DU, y byddai Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn barod i osod offerynnau mor gynnar â diwedd mis Mehefin 2018.[57]

---

[53] Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, Cofnod y Trafodion [128], 14 Mai 2018

[54] Llythyr gan Julie James AC, Arweinydd y Tŷ, 28 Mehefin 2018

[55] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion [90], 11 Mehefin 2018

[56] Ymddiswyddodd Steve Baker AS o'i swydd fel yr Is-Ysgrifennydd Seneddol ar 8 Gorffennaf 2018

[57] Pwyllgor Gweithdrefnau Tŷ'r Cyffredin, *Oral evidence: Exiting the European Union: scrutiny of delegated legislation*, Tŷ'r Cyffredin 386, 2 Mai 2018, C 199 (Saesneg yn unig)

**86.** Gofynnwyd i Arweinydd y Tŷ a oedd yn gwybod, ar sail yr amserlen bresennol (ar y pryd) i'r Bil fynd trwy Senedd y DU, pryd y byddai Llywodraeth Cymru yn dechrau gosod rheoliadau gerbron y Cynulliad Cenedlaethol i gywiro cyfraith ddiffygiol yr UE a ddargedwir. Dywedodd Arweinydd y Tŷ wrthym:

> "The short answer to that is 'no', because it largely depends on what parliamentary process now happens. We've all been reading the news about where we are. There are a large number of amendments that were made that we are expecting the Government to try and reverse. I don't want to be flip, Chair, but 'how long is a piece of string' kind of comes to mind. We're assuming, worst case scenario, that we fall out with no deal, because we have to assume that, we have to be ready for that, and therefore we'll have them as soon as we're out. So, as early as the autumn, but we'll keep a weather eye on it and we'll keep the committee informed as soon as we have any better information than that."[58]

**87.** Ychwanegodd swyddog Llywodraeth Cymru y byddai angen sicrhau dull sifftio yn Senedd y DU a'r Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer rheoliadau y cynnigir iddynt fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol, a hynny cyn y gellir eu gosod ac iddynt symud drwy'r broses ffurfiol.[59]

**88.** Cadarnhaodd Arweinydd y Tŷ fod y cytundebau sy'n ofynnol gyda Llywodraeth y DU a fydd yn sail i'r broses eisoes ar waith pe bai'r rheoliadau'n dechrau cael eu cyflwyno yn fuan.[60]

**89.** Aeth swyddog o Lywodraeth Cymru ymlaen i ddweud:

> "Officials are in continuous discussion with UK Government departments, and we are in discussions with Welsh Government departments to try and identify those statutory instruments that can come forward sooner. And, obviously, there will be others that are subject to further discussions with the UK Government, and some are contingent on whatever negotiation is achieved between the UK Government and the EU."[61]

**90.** Dywedodd Arweinydd y Tŷ wrthym:

---

[58] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion [37], 11 Mehefin 2018
[59] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion [42], 11 Mehefin 2018
[60] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion [46-47], 11 Mehefin 2018
[61] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion [48], 11 Mehefin 2018

> "…we have control over some parts of it, so we will be looking to make sure that the committee has a stream of work using some parts in our control against what the UK is producing to get a workflow going."[62]

## Ein barn

**91.** Rydym yn nodi'r gwaith a wneir gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â nifer y rheoliadau y bydd eu hangen i gywiro diffygion yng nghyfraith yr UE a ddargedwir o ganlyniad i'r DU yn ymadael â'r UE.

**92.** Rhwng 7 Mawrth 2018 ac 11 Mehefin 2018, nodwn nad oedd dadansoddiad Llywodraeth Cymru wedi canfod unrhyw reoliadau pellach y byddai angen i Weinidogion Cymru eu gwneud o dan Ddeddf 2018. Mae hyn yn annisgwyl o ystyried bod pwerau Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau yn ystod y cyfnod hwnnw wedi ehangu'n sylweddol i addasu cyfraith yr UE a ddargedwir o ganlyniad i adran 12 o Ddeddf 2018 ac Atodlen 2 iddi, sy'n ehangu cymhwysedd datganoledig (deddfwriaethol a gweithredol) o ran cyfraith yr UE a ddargedwir.

**93.** Rydym hefyd yn nodi sylwadau'r Prif Weinidog sy'n nodi y bydd Gweinidogion y DU yn gwneud rhai rheoliadau ar ran Gweinidogion Cymru, a hynny oherwydd eu natur annadleuol a thechnegol.

**94.** Felly, byddai'n ddefnyddiol cael diweddariad pellach gan Lywodraeth Cymru i helpu gyda'n gwaith cynllunio prosesau a rhaglenni mewnol cyn diwedd mis Gorffennaf 2018.

> **Argymhelliad 4.** Rydym yn argymell y dylai Arweinydd y Tŷ ysgrifennu atom cyn diwedd mis Gorffennaf 2018, gan roi diweddariad i ni o ran nifer y rheoliadau y bydd eu hangen i gywiro diffygion yng nghyfraith yr UE a ddargedwir o ganlyniad i'r DU yn ymadael â'r UE, yn ogystal â diweddariad ar nifer y rheoliadau eraill y bydd angen eu gwneud o dan Ddeddf 2018.

**95.** Mae'n amlwg ei bod yn debygol y bydd cynnydd sylweddol yn ein llwyth gwaith er mwyn craffu ar reoliadau sy'n deillio o'r DU yn ymadael â'r UE, oherwydd bydd y gwaith hwn yn ychwanegol at y gwaith o graffu ar is-ddeddfwriaeth nad yw'n ymwneud â'r UE, craffu ar Filiau Llywodraeth Cymru (a Biliau eraill o bosib), gwaith ar ein hymchwiliadau ein hun a gwaith craffu ar gysylltiadau rhynglywodraethol.

> **Argymhelliad 5.** Rydym yn argymell, wrth benderfynu ar amserlenni pwyllgorau yn y dyfodol, yr ystyrir yr angen posibl i'r Pwyllgor hwn, yn ein rôl fel y

[62] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion [49], 11 Mehefin 2018

pwyllgor sifftio, gyfarfod am fwy o amser a/neu gyfarfod ar ddiwrnod gwahanol a/neu gyfarfod yn amlach nag unwaith yr wythnos er mwyn craffu ar y rheoliadau a wneir o dan Ddeddf 2018.

## Cefndir a thystiolaeth: rhybudd cynnar, hysbysiad cyffredinol, a llif cyson

**96.** Mae Steve Baker AS, Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol yr Adran Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, wedi awgrymu y byddai Llywodraeth y DU yn ymrwymo i osod rheoliadau erbyn diwrnod penodol o'r wythnos, pe byddai hynny'n cynorthwyo'r pwyllgor sifftio seneddol.[63] Gofynnwyd i Arweinydd y Tŷ a oedd Llywodraeth Cymru yn bwriadu ailadrodd ymrwymiad Llywodraeth y DU. Mewn ymateb, dywedodd Arweinydd y Tŷ:

> "Yes, if the UK Government does manage to do such a thing, we have no issue with duplicating it. It will be in our interest to have as largely similar a process as possible, so that we all understand where we are. That will be particularly important where this committee and the UK committee are simultaneously looking at something."[64]

**97.** O ran rhoi rhybudd ymlaen llaw i'r pwyllgor sifftio o'r rheoliadau y bydd angen eu sifftio, dywedodd Arweinydd y Tŷ fod Llywodraeth Cymru yn awyddus iawn i roi rhybudd mor fuan â phosib i'r Cynulliad a'r pwyllgorau oherwydd ei bod am i'r gwaith fynd rhagddo'n ddidrafferth ac i fod yn effeithlon.[65]

**98.** O gofio y bydd amser o'r pwys pennaf, gofynnwyd i Arweinydd y Tŷ sut y byddwn ni (y pwyllgor sifftio) yn cael ein hysbysu pan osodir rheoliadau sy'n ddarostyngedig i'r gwaith sifftio, a sut y bydd pwyllgorau perthnasol eraill hefyd yn cael eu hysbysu. Dywedodd Arweinydd y Tŷ wrthym:

> "… we have a very good working protocol with this committee about how we notify. We're assuming we'll do the same thing. So, as soon as we have any indication, we'll be notifying the committee and the Commission. (…) I can only emphasise what I'm saying all the time: it is in everybody's interest to make sure that everybody is as fully informed as possible and that the clock runs as efficiently as possible for all of us. It's certainly not in our interest to make sure that that doesn't happen, so we would be looking to have those good working relationships for

[63] Pwyllgor Gweithdrefnau Tŷ'r Cyffredin, *Oral evidence: Exiting the European Union: scrutiny of delegated legislation*, Tŷ'r Cyffredin 386, 2 Mai 2018, C 176 (Saesneg yn unig)

[64] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion [51], 11 Mehefin 2018

[65] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion [58], 11 Mehefin 2018

> this part of your work as well as for the other SIs that are always dealt with."[66]

**99.** Yn ogystal â chael system rhybudd buan, rydym yn pryderu y dylai Llywodraeth Cymru, cymaint ag sy'n bosibl, fod mewn sefyllfa lle y gall osgoi'r potensial i reoliadau gael eu cyflwyno mewn modd afreolaidd. Gofynnwyd i Arweinydd y Tŷ sut y byddai cynlluniau Llywodraeth Cymru yn lliniaru'r sefyllfa hon. Ymatebodd Arweinydd y Tŷ:

> "… we want to make sure that, if at all possible, we can timetable it in such a way that we have a reasonable stream of work coming through for the committee… Nobody wants to see an enormous mound of stuff and then nothing. So it's just a question of whether we can work out a process that allows us to identify the priority and then get a streamline in place.
>
> … we're in a lot of discussion with the UK Government. It's in their interests not to have peaks and troughs as well, and what we're hoping to do is have a streamlined process where we agree which area we're looking at and how to put that in place. It's a hope and an expectation based on our current communications with them and our interaction. I have no way of absolutely ensuring that, but clearly it's in everybody's interest to ensure that. So, I don't see any reason to be alarmed that it won't be possible to work out a protocol of that sort because, obviously, all the committees will have that problem. The UK committees will have that problem, as well as ours. If there's a sudden influx of, I don't know, 50 of them and then nothing at all for the next six weeks, that's clearly a problem for everybody in terms of the timescale."[67]

## Ein barn

**100.** Credwn fod system rhybudd buan yn hanfodol er mwyn gallu cynllunio a rheoli'r broses o graffu ar reoliadau a wneir o dan Ddeddf 2018, yn arbennig y rheoliadau hynny sy'n cywiro diffygion yng nghyfraith yr UE a ddargedwir. Mae'n arbennig o bwysig o gofio:

- bod gan Weinidogion Cymru a Gweinidogion y DU y pŵer i weithredu mewn meysydd datganoledig ac mae effaith Gweinidogion y DU yn

[66] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion [72], 11 Mehefin 2018

[67] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion [11 a 39], 11 Mehefin 2018

defnyddio'r pwerau hynny mewn perthynas ag unrhyw un o'r 400 darn o ddeddfwriaeth y cyfeirir atynt gan Arweinydd y Tŷ yn dal yn ansicr; a

- mai dim ond 14 diwrnod calendr sydd gennym i sifftio rheoliadau negyddol arfaethedig.

**101.** Ar hyn o bryd, rydym yn cyfarfod ar ddydd Llun. Felly, bydd diwrnod cyflwyno rheoliadau sy'n deillio o Ddeddf 2018 yn bwysig er mwyn sicrhau bod y nifer fwyaf o gyfarfodydd pwyllgor ar gael i graffu arnynt, gan ystyried bod angen i'n cynghorwyr cyfreithiol roi cyngor arnynt. Yn gyffredinol, byddai gosod rheoliadau ar ddydd Mawrth yn rhoi dau gyfle i ystyried rheoliadau yn ein cyfarfodydd, ond byddai gosod rheoliadau ar ddydd Gwener dim ond yn rhoi un cyfle i wneud hynny.

**102.** Fel y cyfryw, os byddwn yn parhau i gyfarfod ar ddydd Llun, efallai mai'r diwrnod gorau ar gyfer gosod rheoliadau negyddol arfaethedig fyddai ar ddydd Mawrth, er y byddem yn gofyn am gytundeb Llywodraeth Cymru ar y mater hwn.

**103.** Bydd ein gallu i ystyried rheoliadau negyddol arfaethedig yn dibynnu ar asesiad ein cynghorwyr cyfreithiol o'r rheoliadau. Bydd hyn yn ei dro yn dibynnu ar:

- cymhlethdod y rheoliadau;
- ansawdd y memorandwm esboniadol;
- nifer y rheoliadau negyddol arfaethedig o dan y Ddeddf; a
- chyfanswm y rheoliadau y creffir arnynt o dan Reolau Sefydlog 21.2 a 21.3, a fydd yn cynnwys ein llwyth gwaith arferol ar offerynnau statudol a'r rhai sy'n deillio o Ddeddf 2018 a Deddfau eraill ar Brexit.

**104.** Byddai system rhybudd buan yn ein galluogi i gynllunio'n briodol. Os yw'r cynllun yn cael ei wneud yn gyhoeddus, byddai gan randdeiliaid fwy o gyfle i ymgysylltu â ni a phwyllgorau pwnc. Dylai system o'r fath fod yn gymwys i'r holl reoliadau, nid i'r rhai sydd i'w sifftio yn unig.

**105.** Byddai llif cyson o reoliadau, sydd wedi'u blaenoriaethu'n briodol, yn helpu i osgoi'r modd afreolaidd y cyflwynir rheoliadau ac yn sicrhau y defnyddir adnoddau yn y modd mwyaf effeithlon.

**106.** Rydym yn croesawu ymrwymiad Arweinydd y Tŷ i weithio gyda'r pwyllgor sifftio i sicrhau proses graffu deg ac effeithiol. Rydym yn argymell yr ymagwedd ganlynol ni waeth beth fydd penderfyniadau Llywodraeth y DU.

**Argymhelliad 6.** Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i gytundeb gyda ni fel y pwyllgor sifftio i gynnwys:

- system rhybudd buan i helpu i reoli'r gwaith craffu ar yr holl is-ddeddfwriaeth hyd ddiwedd y Cynulliad hwn (yn 2021);
- y diwrnod gorau ar gyfer gosod y rheoliadau negyddol arfaethedig o dan Ddeddf 2018; ac
- unrhyw fater arall a fydd yn helpu gyda'r gwaith o graffu ar reoliadau a wneir o dan Ddeddf 2018 mewn modd effeithiol ac effeithlon, yn arbennig rheoliadau i gywiro diffygion yng nghyfraith yr UE a ddargedwir.

## Effaith ar fusnes y Cyfarfod Llawn

### Cefndir a thystiolaeth

**107.** Credwn ei fod yn briodol tynnu sylw at y posibilrwydd o gynnydd yn nifer y rheoliadau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol y bydd angen eu cymeradwyo trwy benderfyniad y Cynulliad Cenedlaethol yn y Cyfarfod Llawn. Pan ofynnwyd i Arweinydd y Tŷ a oedd Llywodraeth Cymru yn fodlon â'r modd y gallai fod angen iddi drefnu busnes y Cyfarfod Llawn, dywedodd wrthym:

> "Well, it's a conversation we need to have with the Commission about how to deal with it, but, yes, it's an ongoing and constructive discussion with the Commission. It's obviously in our interest that the Assembly is able to give the right amount of scrutiny and time to this important piece of work. So, it will be something for Business Committee to discuss, for myself and the Llywydd. It's an ongoing discussion—the First Minister and Llywydd—in order to ensure that we get this right and we have the right amount of time."[68]

### Ein barn

**108.** Rydym yn ymwybodol bod Pwyllgor Busnes y Cynulliad Cenedlaethol yn cynnal adolygiad o effaith Brexit ar y Cynulliad Cenedlaethol, gan gynnwys busnes y Cyfarfod Llawn. Felly, byddwn yn tynnu sylw'r Pwyllgor Busnes at y mater hwn.

[68] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion [60], 11 Mehefin 2018

## Adrodd am ganlyniad y gwaith sifftio

### Ein barn

**109.** Bydd angen hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol am ganlyniad y broses sifftio ar gyfer yr holl offerynnau negyddol arfaethedig.

**110.** Mewn perthynas â'r holl offerynnau statudol, mae gennym rôl sefydledig i ystyried y meini prawf a nodir yn Rheol Sefydlog 21.2 (er enghraifft, materion a allai daflu amheuaeth ar gyfreithlondeb offeryn statudol neu a yw offeryn statudol wedi'i wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg) a Rheol Sefydlog 21.3 (er enghraifft, materion sy'n debygol o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad Cenedlaethol) ac i gyflwyno adroddiad arnynt.

**111.** Os ydym yn fodlon ar offeryn statudol, cyfeirir ato fel un sydd ag adroddiad clir. Os nad ydym yn fodlon, byddwn yn cyhoeddi adroddiad yn unol â'r Rheol Sefydlog perthnasol. Mae adroddiadau o'r fath yn hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol ynghylch materion sy'n codi mewn perthynas â'r offerynnau statudol penodol.

**112.** Credwn y dylid dilyn gweithdrefnau tebyg ar gyfer adrodd ar ganlyniad y broses sifftio ar gyfer yr holl reoliadau negyddol arfaethedig.

**113.** Ein bwriad ni yw y dylid gosod adroddiadau sifftio clir gerbron y Cynulliad gan restru'r rheoliadau a ddylai barhau, a symud ymlaen, fel rheoliadau penderfyniad negyddol yn ein barn ni. Dylid gosod adroddiadau o'r fath unwaith yr wythnos ar yr amod bod "sifft" wedi'i gynnal yr wythnos honno.

**114.** O ran y rheoliadau hynny yr ydym yn argymell y dylent fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol neu unrhyw weithdrefn arall (yn unol â'n meini prawf sifftio), dylid gosod adroddiadau unigol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.

**115.** Byddwn yn sicrhau bod ein gwefan yn cysylltu rheoliadau negyddol arfaethedig â'r rheoliadau a gaiff eu gosod yn dilyn y gwaith sifftio.

# 4. Craffu ar reoliadau a wneir gan Weinidogion y DU mewn meysydd datganoledig

**116.** Roedd y bennod flaenorol yn ystyried y rheoliadau y mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu eu gwneud o dan y weithdrefn negyddol naill ai drwy weithredu ar eu pen eu hunain neu ar y cyd â Gweinidogion y DU a'r trefniadau craffu sy'n gymwys.

**117.** Diben y bennod hon yw ystyried y gweithdrefnau sy'n ymwneud â chraffu ar reoliadau a wneir gan Weinidogion y DU sy'n gweithredu ar eu pen eu hunain mewn meysydd datganoledig.

## Cefndir a thystiolaeth

**118.** Mae'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin sydd yn y Cytundeb Rhynglywodraethol yn nodi:

> "The UK Government will be able to use powers under clauses 7, 8 and 9 to amend domestic legislation in devolved areas but, as part of this agreement, reiterates the commitment it has previously given that it will not normally do so without the agreement of the devolved administrations. In any event, the powers will not be used to enact new policy in devolved areas; the primary purpose of using such powers will be administrative efficiency."[69]

**119.** Gofynnwyd i Arweinydd y Tŷ sut y byddai'r Cynulliad Cenedlaethol yn gallu craffu ar reoliadau a wneir mewn meysydd datganoledig gan Weinidogion y DU yn gweithredu ar eu pen eu hunain. Dywedodd:

> "… what we're looking to do is establish a protocol where we get as early a warning as possible of anything that's coming through, whether that's going to be a UK one or one that they think is for us… and that we have an early-warning system in place, that we understand the criteria by which they are grouping them, for example, how many instruments will be needed to correct how many deficiencies, and that we share that

[69] *Cytundeb Rhynglywodraethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin*, fel ar 24 Ebrill 2018, ail baragraff 8 (Saesneg yn unig)

with the committee as early as humanly possible in the cycle, once we're aware ourselves."[70]

**120.** Pan ofynnwyd a fyddai'r Cynulliad Cenedlaethol yn cael gwybod am y rheoliadau hyn, dywedodd:

> "I would look to have a working protocol between us and the Assembly Commission to keep everybody in the loop about where we were with particular bits of secondary legislation, very much as we do now, in fact. When we become aware that something is going into an Act that might affect Wales, we alert the Commission to that, as appropriate, because we want to take a view on it. So, I think we have some established processes for that. We will have to adapt them. But, in principle, we would want the Assembly to have as much information as possible."[71]

**121.** Dywedodd swyddog o Lywodraeth Cymru wrthym:

> "…our understanding is Welsh Ministers would have to give consent to those regulations that UK Ministers were making in devolved areas, and I think the First Minister and Cabinet Secretary for Finance have already committed to a notification process to the Assembly when that consent is given. So, that's the basis on which we're currently working."[72]

**122.** O dan adran 23 o Ddeddf 2018, gall Gweinidogion y DU weithredu mewn meysydd datganoledig, am gyfnod o hyd at 10 mlynedd ar ôl y diwrnod ymadael, i wneud rheoliadau o ganlyniad i Ddeddf 2018. Nid yw'r Cytundeb Rhynglywodraethol yn ymdrin â'r angen am gytundeb rhwng Gweinidogion y DU a Gweinidogion Cymru wrth wneud rheoliadau o'r fath. Ar y pwynt hwn, dywedodd Arweinydd y Tŷ wrthym:

> "It's true that there aren't any provisions there, but we'd expect to be notified, and we therefore expect to keep the Commission in the loop. Again, I emphasise that I can't see why it would be in the UK Government's interests not to do that, and so why would they not? Clearly, it will cause friction if they don't, and—again, I don't see why they would do that. It's not a bone of contention between us or

[70] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion [11], 11 Mehefin 2018
[71] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion [99], 11 Mehefin 2018
[72] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion [104], 11 Mehefin 2018

> anybody else, it's just a process. So, my own view is that we will develop a protocol and it will work happily, if they use them..."[73]

**123.** Mewn llythyr at Bwyllgor Gweithdrefnau Tŷ'r Cyffredin, fel rhan o'i ymchwiliad i faterion tebyg[74], mynegwyd pryder y gallai rheoliadau a wneir gan Weinidogion y DU o dan yr hen gymal 22 o'r Bil (adran 23 o Ddeddf 2018 erbyn hyn) effeithio ar faterion datganoledig heb ein gwybodaeth ni.[75]

## Ein barn

**124.** Rydym yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru bresennol i hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol pan fydd yn rhoi cydsyniad i Weinidogion y DU weithredu mewn meysydd datganoledig. Mae hyn yn arbennig o bwysig o gofio sylwadau'r Prif Weinidog sy'n nodi y bydd Gweinidogion y DU yn gwneud rhai rheoliadau ar ran Gweinidogion Cymru, a hynny oherwydd eu natur annadleuol a thechnegol.

**125.** Credwn ei bod yn briodol i'r Rheolau Sefydlog adlewyrchu'r ymrwymiad hwn am ddau reswm. Yn gyntaf, oherwydd y pwerau eang sydd gan Weinidogion y DU o dan Ddeddf 2018 i wneud rheoliadau mewn meysydd datganoledig (gweler Tabl 1 yr adroddiad hwn). Yn ail, oherwydd gellid gwneud y rheoliadau hynny ar ôl 29 Mawrth 2021 ac yn y Cynulliad nesaf os caiff y diffiniad o "exit day" sef "diwrnod ymadael" yn y Ddeddf ei ddiwygio.

**126.** Yn ogystal, credwn y dylid anfon memorandwm esboniadol ynghyd â'r hysbysiad hwn at y Cynulliad Cenedlaethol yn egluro pam mae Gweinidogion Cymru wedi rhoi'r cydsyniad hwnnw, a hynny er mwyn sicrhau tryloywder ac atebolrwydd.

**Argymhelliad 7.** Rydym yn argymell bod Rheolau Sefydlog y Cynulliad Cenedlaethol yn ei gwneud yn ofynnol, lle y bo Gweinidogion y DU yn gweithio ar eu pen eu hunain mewn meysydd datganoledig yn gosod gerbron Senedd y DU reoliadau mewn meysydd sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru, a lle ei bod yn ofynnol i Weinidogion Cymru gydsynio i wneud y rheoliadau hynny:

- bod Gweinidogion Cymru yn hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol o fewn un diwrnod gwaith i osod y rheoliadau; a

[73] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion [124], 11 Mehefin 2018

[74] Pwyllgor Gweithdrefnau Tŷ'r Cyffredin, *Exiting the European Union: scrutiny of delegated legislation inquiry* (Saesneg yn unig)

[75] Llythyr at Charles Walker AS, Cadeirydd, Pwyllgor Gweithdrefnau Tŷ'r Cyffredin, *Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)* 11 Mai 2018 (Saesneg yn unig)

- bod memorandwm esboniadol yn cyd-fynd â hysbysiad o'r fath yn crynhoi diben ac effaith y rheoliadau ac yn esbonio pam mae Gweinidogion Cymru wedi rhoi eu cydsyniad.

**127.** Rydym yn croesawu sylwadau Arweinydd y Tŷ ynglŷn ag adran 23 o Ddeddf 2018 a chredwn y dylai'r ymrwymiad a roddir hefyd gael ei adlewyrchu yn y Rheolau Sefydlog, yn enwedig oherwydd y gellir gwneud rheoliadau am gyfnod o 10 mlynedd ar ôl y diwrnod ymadael, hy gellir eu gwneud tan 29 Mawrth 2029 (neu'n hwy os diwygir y diffiniad o “exit day” sef “diwrnod ymadael” yn Neddf 2018).

**Argymhelliad 8.** Rydym yn argymell bod Rheolau Sefydlog y Cynulliad Cenedlaethol yn ei gwneud yn ofynnol, lle y bo Gweinidogion y DU yn gweithio ar eu pen eu hunain yn gosod gerbron Senedd y DU reoliadau mewn meysydd sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru, a lle nad yw’n ofynnol i Weinidogion Cymru gydsynio i wneud y rheoliadau hynny:

- bod Gweinidogion Cymru yn hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol o fewn un diwrnod gwaith i osod y rheoliadau; a
- bod memorandwm esboniadol yn cyd-fynd â hysbysiad o'r fath yn crynhoi diben ac effaith y rheoliadau.

**128.** Nid ydym yn credu bod darparu memorandwm esboniadol mewn perthynas ag argymhellion 8 neu 9 yn ofyniad arbennig o feichus, o gofio y byddem yn disgwyl bod Llywodraeth Cymru wedi cynnal dadansoddiad perthnasol fel rhan o'i brosesau a'i gwiriadau mewnol ei hun.

# *5.* Craffu ar reoliadau a wneir o dan adrannau 109A ac 80(8) o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*

## Cefndir a thystiolaeth

**129.** Mae adran 12 o Ddeddf 2018 yn mewnosod adran newydd, adran 109A, yn *Neddf Llywodraeth Cymru 2006* (Deddf 2006), sy'n caniatáu ar gyfer gosod cyfyngiadau ar gymhwysedd y Cynulliad Cenedlaethol. Bydd y cyfyngiadau'n cael eu gosod gan reoliadau a wneir gan Weinidogion y DU (adran 109A(3)) a byddant yn atal y Cynulliad Cenedlaethol rhag newid cyfraith yr UE a ddargedwir mewn meysydd polisi penodol. Rhaid gosod y rheoliadau ar ffurf ddrafft a'u cymeradwyo gan benderfyniad ddau Dŷ Senedd y DU. O dan adran 109A(4), ni chaniateir i Weinidogion y DU osod y drafft hwn oni bai bod y Cynulliad Cenedlaethol wedi gwneud "penderfyniad cydsynio" mewn perthynas â gosod drafft neu hyd nes y bydd 40 diwrnod wedi mynd heibio heb i'r Cynulliad wneud penderfyniad o'r fath.

**130.** O dan adran 109A(5) newydd o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*, penderfyniad cydsynio yw:

- penderfyniad i dderbyn cynnig sy'n rhoi cydsyniad i osod y drafft;
- penderfyniad i beidio â derbyn cynnig sy'n rhoi cydsyniad i osod y drafft; neu
- benderfyniad i dderbyn cynnig sy'n gwrthod rhoi cydsyniad i osod y drafft.

**131.** Mae Adran 157ZA newydd o Ddeddf 2006, a fewnosodir gan baragraff 43 o Atodlen 3 i Ddeddf 2018 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion y DU, pan na fydd y Cynulliad Cenedlaethol wedi cydsynio i osod rheoliadau drafft o dan adran 109A o Ddeddf 2006, osod gerbron Tŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi unrhyw ddatganiad a ddarperir gan Weinidogion Cymru sy'n rhoi barn Gweinidogion Cymru ynghylch pam nad yw'r Cynulliad Cenedlaethol wedi gwneud y penderfyniad hwnnw.

**132.** O dan adran 109A(6), rhaid i Weinidogion y DU ddarparu copi o'r rheoliadau drafft i Weinidogion Cymru a hysbysu'r Llywydd fod copi wedi'i ddarparu. Fodd bynnag, nid oes gorfodaeth ar Weinidogion Cymru i osod y drafft gerbron y Cynulliad ar ôl iddynt gael y drafft.

**133.** Mae telerau'r Cytundeb Rhynglywodraethol (sef cymal 11 o'r Bil neu bellach adran 12 o'r Ddeddf) yn datgan y canlynol:

> Clause 11 Regulations
>
> 7. Clause 11 regulations will be made in accordance with the following process, underpinned by provisions in the Withdrawal Bill:
>
> a. Building on the 'Deep Dive' process, which has been a collaborative effort between the governments, discussions will take place between the governments to seek to agree the scope and content of regulations. This process will continue to report into JMC(EN).
>
> b. Following those discussions between the governments, a UK Minister will formally send draft clause 11 regulations to the relevant devolved administration(s), notifying the relevant Presiding Officer(s) of the relevant devolved legislature(s) that the regulations have been sent.
>
> c. Where the draft regulations have been developed in line with this agreement, the relevant devolved administration(s) will lay them before their legislature(s) and will not unreasonably withhold an accompanying recommendation to their respective legislature(s) to provide consent.
>
> d. If the consent of a devolved legislature is not provided within 40 days of the draft regulations being sent to the relevant devolved administration, the UK Minister may decide either not to proceed with the regulations or to ask the UK Parliament to approve the regulations. If a UK Minister decides to proceed with the regulations, the Minister must provide a written statement to the UK Parliament indicating the reasons why, in the Minister's view, the devolved legislature did not provide consent.
>
> e. The relevant devolved administration(s) will also provide a written a statement to the UK Parliament setting out why, in their view, the consent of their legislature has not been provided.
>
> f. In these circumstances, the UK Minister may make the regulations where they are approved by the UK Parliament.

**134.** Mae'r Cytundeb Rhynglywodraethol yn rhestru 24 o feysydd a allai fod yn destun cyfyngiadau ac felly rheoliadau adran 109A, a dau faes arall sy'n destun trafodaethau parhaus.[76]

**135.** Gofynnwyd i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a fyddai Llywodraeth Cymru yn gosod rheoliadau drafft gerbron y Cynulliad Cenedlaethol yn syth. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid wrthym:

> "… the letter that will come to Welsh Ministers will go out the same day to the Presiding Officer, so the Parliament will be informed at the same timetable as us. I'm quite happy, David, to give an undertaking this afternoon— … that we would lay them immediately if we were able to."[77]

**136.** Gofynnodd David Rees AC, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, i'r Prif Weinidog ar 14 Mai 2018 a fydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau y bydd yn gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol o fewn 24 awr yr holl ddogfennau sy'n dod i'w law gan Lywodraeth y DU, sy'n cynnwys rheoliadau, adroddiadau neu unrhyw bapur arall. Mewn ymateb, dywedodd y Prif Weinidog fod 24 awr waith yn rhesymol yn ei farn ef, ac aeth ymlaen i ddweud:

> "… it wouldn't be appropriate for the withdrawal Bill to specify what Welsh Ministers should do—that's a matter for the Assembly to specify, looking at Standing Orders. But I can give the assurance that, whenever documentation is received by us that is designed for public consumption, it will be shared with the Assembly as soon as possible."[78]

**137.** Ailadroddodd Arweinydd y Tŷ yr ymrwymiadau hyn pan roddodd dystiolaeth i ni ar 11 Mehefin 2018.[79]

**138.** Mewn ymateb i a fydd Llywodraeth Cymru yn gosod memorandwm gerbron y Cynulliad Cenedlaethol cyn ceisio penderfyniad cydsynio mewn perthynas â rheoliadau drafft, dywedodd y Prif Weinidog:

> "Yes. That is the plan, to do that. Clearly, it's in our interests as well that Members are as fully informed as possible before taking decisions."[80]

---

[76] *Cytundeb Rhynglywodraethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin*, fel ar 24 Ebrill 2018, Atodiad A (Saesneg yn unig)

[77] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion [116-118], 30 Ebrill 2018

[78] Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, Cofnod y Trafodion [119], 14 Mai 2018

[79] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion [106], 11 Mehefin 2018

[80] Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, Cofnod y Trafodion [125], 14 Mai 2018

**139.** Yn yr un modd, gofynnwyd i Arweinydd y Tŷ a fyddai barn Llywodraeth Cymru ar reoliadau adran 109A, ym mhob achos, yn cael ei nodi mewn memorandwm esboniadol cysylltiedig. Dywedodd Arweinydd y Tŷ wrthym:

> "Yes, absolutely. As I said, we want to make sure that everybody has as much information as possible, and it's important to us that the Government's position is understood when committees are looking at matters, because that assists."[81]

**140.** Rhaid i Weinidogion y DU hefyd ddarparu gwybodaeth i ddau Dŷ'r Senedd yn esbonio effaith y rheoliadau ac, mewn achosion lle nad yw'r Cynulliad wedi cydsynio i osod y rheoliadau drafft, rhaid i Lywodraeth y DU esbonio pam ei bod wedi penderfynu gosod y rheoliadau drafft. Rhaid i Lywodraeth y DU hefyd osod unrhyw ddatganiad a ddarperir gan Weinidogion Cymru yn nodi ei barn o ran pam mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi gwneud y penderfyniad hwnnw (yn rhinwedd adran 157ZA(2)(b)(ii) o Ddeddf 2006). Fodd bynnag, nid oes dyletswydd statudol ar Weinidogion Cymru i ddarparu datganiad neu i osod datganiad o'r fath gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.

**141.** Mae Deddf 2018 yn galluogi Gweinidogion y DU i ddiddymu'r pŵer (drwy reoliadau) i osod cyfyngiadau ar gymhwysedd y Cynulliad ac yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion y DU ystyried bob tri mis a ddylid diddymu'r pŵer.

**142.** Mae Deddf 2018 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion y DU adrodd i Senedd y DU bob tri mis ar gynnydd tuag at gael gwared ar gyfyngiadau a roddwyd ar waith (h.y. rheoliadau adran 109A) a diddymu'r pwerau i osod cyfyngiadau o'r fath. Mae Ddeddf 2018 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion y DU ddarparu eu hadroddiadau mewn cysylltiad â chyfyngiadau i Weinidogion Cymru ond nid oes gofyniad i'r adroddiadau hyn gael eu gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol. At hynny, nid oes gofyniad i hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol pan ddirymir cyfyngiad penodedig neu pan ddiddymir pŵer i osod cyfyngiad.

**143.** Gofynnwyd i Arweinydd y Tŷ a fyddai Llywodraeth Cymru yn fodlon gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol yr adroddiadau chwarterol ar y pwerau sy'n gosod cyfyngiadau cyn gynted ag y deuant i law. Dywedodd Arweinydd y Tŷ wrthym:

> "Yes—well, 'as soon as we receive them', I'm not sure, but as soon as is humanly possible.

[81] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion [110], 11 Mehefin 2018

> …
>
> You know, it may be 24 hours later or something (…) what we will have to do is work out—once we have certainty about where we're going with all of this stuff, what we'll have to do is work out the procedures and processes that are then agreed. So, at this point, I'm happy to make the commitments that we'll do it, but we need to work out the technical detail of that once we've got the Act and all of its bits on the table in front of us so that we can see in real time, if you like, what that might entail. But I'm happy to commit the Government to doing what's necessary to make that happen."[82]

**144.** Gwnaeth y Prif Weinidog ymrwymiad tebyg pan roddodd dystiolaeth i'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ar 14 Mai 2018.[83]

**145.** Pan gaiff cyfyngiadau ar gymhwysedd deddfwriaethol eu diddymu neu eu dirymu, dywedodd y Prif Weinidog y bydd Llywodraeth Cymru am weiddi am hynny o ben y tai ac yn hysbysu'r Cynulliad cyn gynted â phosib.[84]

## Ein barn

**146.** Rydym yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i roi gwybod i'r Cynulliad Cenedlaethol pan fydd rheoliadau drafft yn dod i'w llaw o dan adran 109A o *Ddeddf 2006*.

**147.** Mae angen diwygio'r Rheolau Sefydlog i gynnwys gweithdrefn o ganlyniad i'r darpariaethau sydd i'w cynnwys yn Adran 109A o *Ddeddf 2006*. I'r perwyl hwnnw, rydym yn cytuno â'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol.[85]

**148.** Rydym hefyd yn nodi y bydd gan Weinidogion y DU y pŵer i wneud rheoliadau sy'n rhewi cymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth mewn perthynas â chyfraith yr UE a ddargedwir (h.y. "rhewi'r" cymhwysedd gweithredol yn yr un ffordd ag y mae cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad wedi'i rewi). Gwneir y rheoliadau hyn o dan adran 80(8) ddiwygiedig o Ddeddf 2006. Bydd yr un weithdrefn "penderfyniad cydsynio" yn gymwys i

---

[82] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion [112 a 114], 11 Mehefin 2018

[83] Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, Cofnod y Trafodion [157], 14 Mai 2018

[84] Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, Cofnod y Trafodion [123 a 165], 14 Mai 2018

[85] Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, *Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael): Y cynnydd o ran cyflawni ein chwe amcan*, Mai 2018

reoliadau a wneir gan Weinidogion y DU o dan adran 80(8) o Ddeddf 2006. Felly, bydd angen estyn y weithdrefn ar gyfer craffu ar reoliadau adran 109A i gynnwys rheoliadau adran 80(8) hefyd.

**Argymhelliad 9.** Rydym yn argymell y dylid diwygio Rheolau Sefydlog y Cynulliad Cenedlaethol i ddarparu gweithdrefn mewn perthynas â'r darpariaethau yn adran 109A o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*, yn arbennig:

- i wneud memorandwm esboniadol yn ofynnol sydd:
    - yn crynhoi effaith rheoliadau y mae Gweinidogion y DU yn bwriadu eu gosod o dan adran 109A (3) o Ddeddf 2006;
    - yn gwneud argymhellion o ran a ddylid gwneud y rheoliadau drafft perthnasol yn ddiweddarach gan Weinidogion y DU;
    - yn esbonio'r rhesymau dros wneud yr argymhelliad;
- i'w gwneud yn ofynnol i'r Pwyllgor Busnes gyfeirio'r memorandwm esboniadol hwnnw at bwyllgor neu bwyllgorau;
- i’w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol unrhyw ddatganiad ysgrifenedig a roddwyd i Weinidogion y DU (h.y. y datganiad a grybwyllwyd yn adran 157ZA(2)(b)(ii) newydd o Ddeddf 2006), heb fod yn hwyrach nag un diwrnod gwaith ar ôl i Weinidogion Cymru roi'r datganiad.

**Argymhelliad 10.** Rydym yn argymell bod manylder argymhelliad 10 yr un mor gymwys o ran y darpariaethau yn adran 80 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*.

**149.** Fel y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, credwn fod angen gweithdrefnau i Weinidogion Cymru osod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol yr adroddiadau tri mis ar gynnydd tuag at ddileu cyfyngiadau cyfraith yr UE a ddargedwir a grybwyllir ym mharagraff 4(4) o Ran 2 o Atodlen 3 i Ddeddf 2018 a bod y Cynulliad Cenedlaethol yn cael ei hysbysu pan godir cyfyngiadau ar gymhwysedd y Cynulliad Cenedlaethol neu Weinidogion Cymru o dan adran 109A o Ddeddf 2006.[86]

**Argymhelliad 11.** Rydym yn argymell ei bod yn ofynnol i Weinidogion Cymru, yn ôl Rheolau Sefydlog y Cynulliad Cenedlaethol, osod unrhyw adroddiad a

[86] Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, *Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael): Y cynnydd o ran cyflawni ein chwe amcan*, Mai 2018

ddarperir iddynt yn unol â pharagraff 4(4) o Ran 2 o Atodlen 3 i Ddeddf 2018, a hynny o fewn un diwrnod gwaith iddo ddod i law.

**Argymhelliad 12.** Pan fydd Llywodraeth y DU yn diddymu neu'n dirymu cyfyngiadau cyfraith yr UE a ddargedwir (o ran cymhwysedd deddfwriaethol a chymhwysedd gweithredol), rydym yn argymell ei bod yn ofynnol i Weinidogion Cymru, yn ôl Rheolau Sefydlog y Cynulliad Cenedlaethol, wneud datganiad ysgrifenedig:

- bod cyfyngiadau cyfraith yr UE wedi'u codi, heb fod yn hwyrach na 7 diwrnod calendr ar ôl i'r rheoliadau perthnasol gael eu gosod;
- sy’n esbonio effaith dileu'r cyfyngiadau ar gymhwysedd y Cynulliad Cenedlaethol neu Weinidogion Cymru.

# 6. Cyhoeddusrwydd ac ymgysylltu

**150.** Byddwn yn trafod y ffordd orau o roi cyhoeddusrwydd i'n gwaith er lles dinasyddion a sut y gallent ymgysylltu â ni mewn modd defnyddiol. Ym mis Ionawr 2018, awgrymodd yr Athro Thomas Glyn Watkin yn ei ymateb i'r ymgynghoriad a arweiniodd at ein hadroddiad cyntaf:

> "Finally, it might be thought appropriate to establish a standing consultation mechanism to enable expert opinion to be taken on the proposed subordinate legislation both at the Assembly and in Westminster. Experts in the devolved policy areas as well as those learned in EU law might be enabled to comment quickly and effectively on proposed SIs for the benefit of the relevant committees."[87]

**151.** Mae hwn yn un syniad y byddwn yn ei ystyried wrth i ni ddatblygu ein trefniadau ar gyfer craffu ar y rheoliadau ac mae'n bosibl ei fod yn fater y bydd pwyllgorau pwnc hefyd am ei ystyried.

**152.** Byddwn yn cyhoeddi cymaint o wybodaeth fanwl ar ein gwefan am y rheoliadau a wneir o dan Ddeddf 2018 yn brydlon a byddwn yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i roi cyhoeddusrwydd i'n gwaith.

[87] Tystiolaeth gan yr Athro Thomas Glyn Watkin, 19 Ionawr 2018 (Saesneg yn unig)